# Cynllun Lles Lleol Caerdydd 2023-28







This document is available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyd-destun | | 3 |
| Caerdydd Heddiw ac Yfory | | 8 |
| Ffyrdd o Weithio | | 13 |
| Amcanion Lles | | |
| 1. | Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu | 16 |
| 2. | Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn | 22 |
| 3. | Cefnogi Pobl Allan o Dlodi | 28 |
| 4. | Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus | 35 |
| 5. | Prifddinas sy'n Gweithio dros Gymru | 41 |
| 6. | Caerdydd Un Blaned | 47 |
| 7. | Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus | 53 |
| Mesur Cynnydd - Dangosyddion Lles | | 58 |
| Rhestr Termau | | 62 |

**Atodiadau**

**Atodiad A: Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd - Cynlluniau Strategol**

**Atodiad B: Amcanion Lles Caerdydd - Cyfraniad at y Nodau ac Amserlenni Lles Cenedlaethol**

# Cyd-destun

**Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd?**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC Caerdydd) yn dwyn ynghyd arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r Gwasanaeth Tân, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Prawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy atgyfnerthu cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

**Beth yw Cynllun Lles?**

Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i BGC Caerdydd lunio Cynllun Lles newydd. Dyma ail Gynllun Lles Caerdydd, yn cwmpasu'r cyfnod 2023-2028.

Mae'r Cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu dros y pum mlynedd nesaf, gan ganolbwyntio ar y meysydd cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sydd yn eu hanfod yn galw am weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 'Amcanion Lles', meysydd gweithredu y mae BGC Caerdydd wedi'u nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Blaenoriaethau' neu'r camau y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni.

Dylid felly ystyried y Cynllun Lles yn ddogfen ategol i gynlluniau strategol ac Amcanion Lles pob aelod o'r BGC (sy'n cael eu crynhoi yn **Atodiad A**), yn canolbwyntio ar gyflawni 'mantais gydweithredol' mewn meysydd o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gofyn am gydweithio rhwng un neu fwy o'r gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cynllun yn ymateb i sylfaen dystiolaeth amrywiol ar ansawdd bywyd a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd, a sut y gallai'r rhain newid dros y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys:

- Asesiad Lles Lleol Caerdydd: astudiaeth gynhwysfawr o ansawdd bywyd yng Nghaerdydd a gynhaliwyd yn 2022. Mae'r asesiad yn cynnwys adroddiad 'Caerdydd Heddiw', sy'n nodi ble mae'r ddinas yn perfformio'n dda, ble mae angen iddi wella a'i heriau allweddol, ac adroddiad 'Caerdydd Yfory', sy'n nodi'r tueddiadau hirdymor sy'n wynebu Caerdydd ac effaith y rhain ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas.
- Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro: asesiad o anghenion gofal a chymorth ymysg trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg, yn ogystal â'r ystod a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen i fodloni'r anghenion hynny.
- Barn pobl Caerdydd (cyfeiriwch at dudalen 5 am amlinelliad o'r dull o ymgynghori)

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn am waith ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella lles pob ardal Awdurdod Lleol ac i gyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol. Mae cyfraniad y Cynllun hwn a'i flaenoriaethau yn erbyn y nodau lles cenedlaethol, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer cyflawni, i'w gweld yn **Atodiad B**.

Mae'r Ddeddf wedi'i dylunio i wella lles cymunedau lleol ac i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus mwy cynaliadwy drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl tua'r hirdymor yn fwy, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ymdrechu i atal problemau rhag digwydd a gweithredu'n fwy cydgysylltiedig (y 'pum ffordd o weithio').

Yn bwysig, ni ddylid ystyried yr Amcanion Lles a'r blaenoriaethau a gynhwysir yn y cynllun hwn ar eu pennau eu hunain, ond fel rhaglen newid gydfuddiannol a fydd, ar y cyd, yn helpu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd i ymateb i'r pwysau sydd arnynt a gwella bywydau pobl Caerdydd, yn enwedig dinasyddion mwyaf agored i niwed y ddinas.

**Myfyrio ar Gynllun Lles Lleol Caerdydd 2018-2023**

Cyhoeddodd BGC Caerdydd ei Gynllun Lles cyntaf yn 2018, a oedd yn nodi Amcanion Lles a blaenoriaethau partneriaeth ar gyfer gweithredu rhwng 2018 a 2023, gydag uchelgais gyffredinol i sicrhau y bydd Caerdydd yn lle gwell fyth i fyw a gweithio i genedlaethau'r dyfodol, lle bydd yr holl ddinasyddion, y rhanbarth a'r genedl yn teimlo buddion twf.

Ers y cyfnod hwnnw, mae partneriaid wedi cydweithio ac eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol, fel yr amlygwyd o fewn y Asesiad Lles Lleol (2022). Mae adroddiad blynyddol terfynol BGC Caerdydd ar ei Gynllun Lles Lleol 2018-23 yn myfyrio ar y cynnydd a wnaed - yn erbyn pob Amcan Lles - dros oes y Cynllun. Mae cyflawniadau mawr yn cynnwys:

- Helpu i godi pobl allan o dlodi drwy ennill statws Dinas Cyflog Byw, gydag aelodau BGC yn arwain y ffordd ac yn dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig.
- Gwneud cynnydd tuag at ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, gyda hawliau'r plentyn yng nghanol adferiad ac adnewyddiad y ddinas yn dilyn y pandemig.
- Lansio Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda Caerdydd a'r Fro, gan yrru dull system-gyfan o fynd i'r afael â gordewdra ac anghydraddoldebau iechyd.
- Dod yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).
- Lansio Siarter Teithio Iach i Staff, gan nodi nifer o ymrwymiadau er mwyn helpu i annog gweithwyr i newid i ddulliau teithio cynaliadwy.
- Sefydlu Bwrdd Argyfwng Hinsawdd, gan ddod â phartneriaid lleol o'r sector cyhoeddus at ei gilydd, yn ogystal â phrifysgolion a chwmnïau cyfleustodau'r ddinas, i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned y ddinas.
- Trefnu ymateb ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i'r pandemig Covid-19, gan gyflwyno trefniadau llywodraethu newydd a sicrhaodd gymorth strategol a rhannu gwybodaeth ar bob lefel.

**Pam mae angen Cynllun Lles newydd arnom?**

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni, mae Caerdydd, fel pob dinas, yn wynebu nifer o heriau cyson a mawr. Yn benodol, rheoli'r broses adfer ac adnewyddu o'r pandemig Covid-19; sicrhau bod y twf yn y boblogaeth a llwyddiant economaidd o fudd i bob dinesydd; lleihau'r bwlch annhegwch rhwng y mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y ddinas; diwallu anghenion poblogaeth hŷn sy'n tyfu; ymateb i alwadau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol; a gwneud y newidiadau systemig sydd eu hangen i liniaru effeithiau newid hinsawdd a datgarboneiddio'r ddinas ar frys.

Ni all unrhyw wasanaeth cyhoeddus unigol ymateb i'r heriau hyn ar ei ben ei hun. Bydd angen gwaith partneriaeth agos rhwng aelodau BGC Caerdydd, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac yn bwysicaf, dinasyddion Caerdydd. Yr uchelgais o hyd yw sicrhau bod Caerdydd, ar gyfer y cenedlaethau i ddod, yn lle gwell fyth i drigolion a gweithwyr, lle mae manteision twf yn cyrraedd pob dinesydd, y rhanbarth a'r genedl. Mae'r BGC felly wedi cytuno i gadw ei Amcanion Lles gwreiddiol, er bod 'Mae Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Gadarn' wedi'i ailenwi'n 'Caerdydd Un Blaned', gyda'r Cynllun Lles hwn yn nodi blaenoriaethau partneriaeth wedi'u hadnewyddu ar gyfer gweithredu dros y pum mlynedd nesaf, a thu hwnt.

**Sut y gwnaethom ddatblygu'r Cynllun Lles?**

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd BGC Caerdydd ei Asesiad Lles Lleol, sy'n nodi ardaloedd lle mae'r ddinas yn perfformio'n dda, lle mae angen iddi wella a'i heriau allweddol, gan gynnwys tueddiadau'r dyfodol. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro ei [1] Asesiad Anghenion y Boblogaeth, sy'n cynnwys asesiad o anghenion gofal a chymorth ymysg trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg, yn ogystal â'r ystod a lefel o wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwnnw.

Gan ddefnyddio canfyddiadau Asesiad Lles Lleol Caerdydd ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro[2], yn ogystal ag ystyried Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, dechreuodd y gwaith o adolygu'r amcanion ar gyfer gwella lles Caerdydd. Fel rhan o'r gwaith hwn, ac mewn ymateb i'r ystod o faterion a nodwyd o fewn yr asesiadau, cydweithiodd BGC Caerdydd a BPRh Caerdydd a'r Fro i lunio rhestr o'r ystod eang o flaenoriaethau ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ymarfer pellach i ddatblygu rhestr flaenoriaethau â mwy o ffocws i'w chynnwys yn y Cynllun Lles, a fyddai'n galluogi cynnydd yn erbyn pob un o Amcanion Lles Caerdydd. Cafodd blaenoriaethau eu hasesu i'w cynnwys gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Dim ond trwy **waith partneriaeth strategol** (h.y. nid drwy fusnes craidd/cyfrifoldeb statudol un sefydliad) y gellir mynd i'r afael â nhw
- Maent yn gofyn am waith partneriaeth rhwng **aelodau'r BGC a/neu BPRh**
- Gofynnant am waith partneriaeth ar **ôl-troed daearyddol Caerdydd a/neu Fro Morgannwg**.

Er mwyn profi a thrafod y rhestr arfaethedig ddilynol o flaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, cynhaliwyd gweithdy yn gynnar ym mis Gorffennaf 2022, gan ddod ag arweinwyr polisi a data at ei gilydd o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector ar draws Caerdydd a'r Fro.

Yn dilyn y gweithdy, ar 21 Gorffennaf 2022, crëwyd rhestr ddiwygiedig o flaenoriaethau partneriaeth strategol arfaethedig yn ôl amcan lles, a'i chyflwyno i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gyngor. Derbyniwyd yr ymateb gan y Comisiynydd ar 21 Medi 2022.

Arweiniodd hyn at ddatblygu Cynllun Lles drafft ar gyfer ymgynghoriad, a gafodd ei gymeradwyo gan y BGC yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2022. Ystyriwyd y Cynllun drafft hefyd gan Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP) Cyngor Caerdydd - sydd â chyfrifoldeb trosfwaol am graffu ar Wasanaethau Cyhoeddus Caerdydd - yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol 12 wythnos ar Gynllun Lles Drafft Caerdydd rhwng 28 Hydref 2022 a 20 Ionawr 2023. Yn ogystal â chynnig copi o'r Cynllun drafft i ymgyngoreion statudol, gwnaed arolwg ar-lein – a oedd yn canolbwyntio ar yr Amcanion Lles a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth – ar gael ar wefan y BGC. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy sianeli cyfryngau'r Cyngor, i'r Panel Dinasyddion drwy rwydweithiau a grwpiau cymunedol ac mewn adeiladau cymunedol.

Cytunodd BGC Caerdydd hefyd y byddai canlyniadau'r arolwg blynyddol 'Holi Caerdydd' diweddaraf yn cael eu defnyddio i ychwanegu at ganlyniadau'r ymgynghoriad uniongyrchol ar y Cynllun Lles. Mae Holi Caerdydd yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd a'r rhai sy'n ymweld â'r ddinas rannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus. Mae'r arolwg wedi hen sefydlu yng Nghaerdydd - mae wedi bod yn rhedeg ers 2002 ac, fel arolwg o ddinasyddion, mae ganddo un o'r cyfraddau ymateb uchaf o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu Ddinas Graidd yn y DU.

Dadansoddwyd canfyddiadau'r arolwg ar-lein a Holi Caerdydd, yn ogystal ag arolygon perthnasol eraill, gan gynnwys yr arolwg Dinas sy'n Dda i Blant, gan sicrhau bod y Cynllun Lles a blaenoriaethau'r BGC ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn cyd-fynd â materion a nodwyd gan ddinasyddion. Mae'r canfyddiadau i'w gweld yma. Bydd sgyrsiau gyda chymunedau Caerdydd yn cael eu cynnal wrth symud ymlaen, wrth i ffocws gael ei roi ar gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae'r Cynllun hwn felly yn ystyried yr adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymgysylltu â dinasyddion, cyflwyniadau ffurfiol gan randdeiliaid a safbwyntiau Craffu.

[1] Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau, gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro.

[2] **Sylwer:** mae Asesiad Lles Lleol Caerdydd ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro yn rhoi cip ar gyfnod, yn seiliedig ar y data diweddaraf a oedd ar gael ar y pryd - doedd data Cyfrifiad 2021 ddim wedi cael ei ryddhau pan gyhoeddwyd yr asesiadau, er enghraifft. Ystyrir bylchau tystiolaeth a chyfyngiadau data o fewn y ddau asesiad. Lle y bo'n bosib, mae'r Cynllun hwn, gan gynnwys y blaenoriaethau, wedi'i werthuso i sicrhau bod y data mwyaf diweddar sydd ar gael - ar adeg ysgrifennu - wedi'i gyfeirio a'i ystyried.

## Sut byddwn ni'n cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth?

Bydd cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Lles ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am weithredu ar draws sawl amserlen a lefel, o'r uniongyrchol a gweithredol, i'r hirdymor a strategol.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau, felly, cynhaliwyd adolygiad o lywodraethu partneriaeth ar ôl-troed rhanbarthol yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau llywodraethu partneriaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau newydd a nodwyd yn y Cynllun, bod eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd am gyflawni blaenoriaethau partneriaeth, a bod y trefniadau statudol cymhleth yn gweithio mewn ffordd symlach a chysylltiedig yn lleol.

Roedd yr adolygiad felly yn cydnabod bod angen 'cartref' a llinell welediad i BGC Caerdydd neu BPRh Caerdydd a'r Fro ar bob blaenoriaeth. Lle cynigir i'r BPRh arwain ar oruchwylio a chyflawni blaenoriaethau partneriaeth (yn Amcanion Lles 1 a 2) nodir hyn yn glir o fewn y Cynllun Lles.

## Mesur Cynnydd

Bydd cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn cyfuniad o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel y'u rhestrir o dan bob Amcan Lles.

Mae'r dangosyddion canlyniadau'n rhoi mesurau gwrthrychol o berfformiad y ddinas; mae'n anodd dylanwadu ar y tueddiadau maen nhw'n eu mesur yn uniongyrchol ac ni ellir mynnu bod un corff neu sefydliad yn atebol am eu cyflawni. O ganlyniad, does dim targed yn cael ei osod yn eu herbyn.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar Ddangosfwrdd Dinas-gyfan ar-lein Caerdydd. Mae'r Dangosfwrdd yn dod â nifer o setiau data at ei gilydd, wedi'u grwpio yn ôl gwahanol themâu, i gyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Gellir gweld y data dros amser, a lle mae ar gael, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei dorri i lawr i lefel is-Gaerdydd.

Bydd y cynnydd yn erbyn dangosyddion y Cynllun Lles a'r blaenoriaethau yn cael ei adrodd yn flynyddol, fel rhan o Adroddiad Blynyddol y BGC.[3]

Cyfeiriwch at yr adran **'Mesur Cynnydd - Dangosyddion Lles'** ar dudalen 58 am restr gyflawn o'r dangosyddion.

[3] **Sylwer:** mae'r amlder y caiff y data ei ddiweddaru yn amrywio ar gyfer pob dangosydd. Mae'r ffynhonnell ddata hefyd yn amrywio ar gyfer pob dangosydd a gall newid dros amser wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael, neu wrth i ffynonellau cyfredol gael eu diwygio neu beidio â chael eu cyhoeddi. Bydd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf yn erbyn y Cynllun Lles hwn yn darparu llinell sylfaen ar gyfer pob dangosydd wrth symud ymlaen, er y gellir diwygio'r data hwn wedyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.





# Caerdydd Heddiw ac Yfory

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo. Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel, mae disgwyliad oes yn cynyddu ac mae'r ddinas yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru ar draws ystod o ddangosyddion ffordd iach o fyw. Mae cyrhaeddiad addysgol wedi codi bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012 ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, ac mae'n parhau i wneud cyfraniad allweddol at greu swyddi a chyfoeth i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach, gan gyfrif am 19 % o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) Cymru, ac mae'r Brifddinas-Ranbarth hefyd yn creu dros hanner allbwn economaidd Cymru. Yn ogystal, mae Caerdydd yn ddinas ddiogel i fyw ynddi gyda'r gyfradd troseddu isaf ond un ymhlith dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae yna feysydd o her o hyd - nid lleiaf yr argyfwng costau byw presennol, lle mae chwyddiant cynyddol a chynnydd mewn prisiau ynni yn rhoi pwysau ar incwm a lles cartrefi ledled y ddinas, gan effeithio fwyaf ar unigolion a theuluoedd bregus. Ond er hynny, fel gyda dinasoedd eraill yn y DU, ceir anghydraddoldebau sylweddol a hirsefydlog yng Nghaerdydd. O ran amddifadedd incwm, mae bron i un o bob pump o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yng Nghaerdydd ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y drydedd gyfran uchaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae hyn yn troi i dros draean wrth edrych ar ACEHIau yn yr 'Arc Ddeheuol' - ardal sy'n ymestyn o Drelái yn y Gorllewin i Laneirwg yn y Dwyrain gyda phoblogaeth o tua 155,000 o bobl. Petai Arc Ddeheuol Caerdydd yn un awdurdod lleol, hwn fyddai'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o gryn dipyn.

Ar ben hynny, tra bod lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel, mae gan Gaerdydd hefyd anghydraddoldebau iechyd clir ledled y ddinas, gyda wardiau yn yr Arc Ddeheuol unwaith eto y mwyaf difreintiedig. Mae digon o dystiolaeth bod ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys addysg, tai, ansawdd aer, statws cyflogaeth, lefel incwm, rhywedd ac ethnigrwydd yn cael dylanwad amlwg ar ba mor iach yw unigolyn.

Er enghraifft, amlygodd y pandemig Covid-19 sut yr oedd anghydraddoldebau presennol, megis amddifadedd, incwm isel, a thai gwael yn gysylltiedig â risg uwch o fynd yn sâl gyda'r clefyd. Mae effeithiau iechyd a lles anuniongyrchol y pandemig hefyd yn bwysig i'w hystyried; er enghraifft, gwelwyd gostyngiadau mewn lefelau gweithgaredd yn ystod y cyfyngiadau ac nid yw'r lefelau wedi gwella eto. Mae canlyniadau iechyd a lles hirdymor argyfwng economaidd Covid-19 yn debygol o gael eu dosbarthu'n anghyfartal, gan waethygu anghydraddoldebau iechyd i unigolion o gefndiroedd tlotach a difreintiedig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau difreintiedig.

Gwnaeth plant a phobl ifanc, yn enwedig, brofi tarfu sylweddol ar eu bywydau bob dydd o ganlyniad i'r feirws. Yn dilyn y cyfyngiadau, bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n datgan problemau iechyd emosiynol a meddyliol. Roedd y pandemig Covid-19 hefyd yn risg uniongyrchol iawn i bobl hŷn y ddinas, gyda gwasanaethau'n cael eu hail-lunio a mesurau gofal a chymorth ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r her. Cafodd gwaith partneriaeth ac integreiddiad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y ddinas eu cynyddu i lefelau newydd o ganlyniad, ac mae hyn yn parhau i ddigwydd.




[4] Er bod cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd yn golygu nad oes data cymharu cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn ar gael, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerdydd wedi dangos gwelliant nodedig dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngoleuni canlyniadau arolwg Estyn, categoreiddio cenedlaethol, a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol o addysg o gymharu â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar fywyd y ddinas, gyda'r sectorau diwylliant, manwerthu a lletygarwch - rhai o'r prif atyniadau i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd - wedi'u heffeithio'n arbennig gan gyfnodau clo a chyfyngiadau hir. Effeithiodd y pandemig fwyaf ar y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y sectorau hyn – pobl ifanc, menywod a phobl o gefndir ethnig leiafrifol fel arfer. Yn wir, fe ddyblodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau'n ymwneud â diweithdra (cyfradd cyfrif hawlwyr) yng Nghaerdydd ar ddechrau'r pandemig. Ers hynny mae wedi gostwng, ond mae'n parhau ar tua'r un lefel â chyn y pandemig.

Mae nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, sy'n dangos cryfder a gwydnwch economi'r ddinas. Mae lefel y buddsoddiad yn y ddinas, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth barhaus o brosiectau mawr, hefyd yn cyflymu'r adferiad ac yn lleoli Caerdydd fel economi gwerth uchel a wasanaethir yn dda gan seilwaith digidol a thrafnidiaeth. Fodd bynnag, mae'r ddinas yn wynebu nifer o heriau. Gyda gweithwyr swyddfa'n annhebygol o ddychwelyd i ganol y ddinas yn yr un niferoedd ac 'Amazoneiddio' arlwy'r stryd fawr, dros y tymor canolig a'r hirdymor rhaid ail-ddychmygu canol y ddinas i ymateb i'r tueddiadau cynyddol hyn a dod yn gyrchfan ar gyfer siopa a hamddena. Bydd trawsnewidiad parhaus y ddinas - drwy fuddsoddi mewn seilwaith digidol a thrafnidiaeth a chreu mannau cyhoeddus amgylcheddol-gynaliadwy o ansawdd uchel - yn allweddol.

Yn ehangach, y newid yn yr hinsawdd yw her fyd-eang bennaf ein cenhedlaeth o hyd. Ni allai'r neges fod yn gliriach ac mae adroddiad Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (IPCC), a gyhoeddwyd yn Chwefror 2022, yn rhoi'r rhybudd amlycaf eto. Mae effeithiau'r argyfwng hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghaerdydd, gan gynnwys patrymau tywydd afreolaidd, tywydd poeth, a newidiadau mewn bioamrywiaeth - gyda'r ddinas yn sgil hynny'n wynebu argyfwng natur. Nid peth newydd, serch hynny, yw'r daith tuag at ymdrin â'r her, a bu gwaith ar y gweill i leihau allyriadau carbon deuocsid Caerdydd a'i gwneud yn fwy gwydn i'r newid yn yr hinsawdd a chryfhau ei hecosystem ers blynyddoedd lawer. Mae mwy o waith i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd yn cael ei wneud trwy Strategaeth a Chynllun Gweithredu Dinas-gyfan Un Blaned Caerdydd, wrth i'r ddinas anelu at ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.



# Caerdydd Yfory:Tueddiadau, Cyfleoedd a Heriau

## Poblogaeth sy'n Tyfu a Heneiddio ac sy'n Gynyddol Amrywiol

Mae Caerdydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf ac er bod rhagamcanion y boblogaeth yn dangos arafu yn y twf yn ystod y 25 mlynedd nesaf (2018-2043), mae rhagamcan o hyd o 24,642 o drigolion[5]. O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd angen rhwng 19,000 a 30,500 o gartrefi newydd ar Gaerdydd a 30,000 a 43,000 o swyddi newydd erbyn 2036.

Ni fydd y twf hwn yn gyfartal ar draws grwpiau oedran, fodd bynnag, gyda'r gyfradd dwf uchaf yn cael ei rhagweld ar gyfer y rhai 65+, yn bennaf oherwydd disgwyliad oes cynyddol. Bydd y twf parhaus ym mhoblogaeth hŷn y ddinas yn arwain at angen cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal, ac felly alw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal oherwydd bregusrwydd a salwch cronig, fel dementia. Bydd diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio – a lleihau'r pwysau ar wasanaethau - yn gofyn am sicrhau bod y ddinas yn amgylchedd sy'n dda i bobl hŷn, lle gallant fod yn actif, cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd y ddinas, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired â phosib.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd fod gan Gaerdydd boblogaeth gynyddol amrywiol, gyda phobl o sawl diwylliant a chefndir gwahanol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 16.5 % o drigolion Caerdydd wedi eu geni y tu allan i'r DU, sef y ffigwr uchaf yng Nghymru. Yn ogystal, mae 21.2 % o drigolion Caerdydd yn perthyn i grŵp ethnig leiafrifol, sy'n codi i 32.7 % wrth ystyried y rhai rhwng 4 a 15 oed. Mae Caerdydd wedi gweld cyfanswm mudo net positif ers nifer o flynyddoedd ac, er bod y rhagamcanion diweddaraf yn dangos lefelau mudo net llawer is dros y 15 mlynedd nesaf, bydd Caerdydd yn parhau i fod yn 'lleoliad croeso' allweddol, yn enwedig i'r rhai sy'n ceisio lloches a noddfa. Mae hyn yn ased mawr i'n cymunedau, ond mae hefyd yn golygu y gall anghenion fod yn wahanol ar draws y boblogaeth. Mae angen i wasanaethau allu addasu ac ymateb i'r amrywiaeth hon, gan rymuso pobl drwy ddarparu mynediad at y wybodaeth, y cyngor, a'r cymorth cywir.

## Rôl Caerdydd fel Sbardun Economaidd

Fel dinas graidd Cymru, mae Caerdydd yn hanfodol er mwyn sicrhau ffyniant economaidd - nid yn unig ar gyfer trigolion y ddinas, ond y ddinas-ranbarth ehangach a Chymru. Wrth symud ymlaen, bydd angen gwaith i sicrhau bod y ddinas yn parhau i fod yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo. Fel canolfan genedlaethol ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon a pherfformio, bydd gwella asedau diwylliannol y ddinas yn hollbwysig, gan gydnabod pwysigrwydd diwylliant i fywyd y ddinas, yr economi a lles. Bydd gwella asedau gwyrdd a glas y ddinas hefyd yn bwysig - mae gan y ddinas eisoes dreftadaeth gyfoethog o seilwaith gwyrdd a glas sy'n rhan annatod o'i chymeriad.

Yn yr un modd, mae tai yn ganolog i fywiogrwydd ac mae sicrhau bod cartrefi newydd yn gynaliadwy, yn ynni-effeithlon ac o safon uchel yn sylfaenol. At hynny, bydd cydgrynhoad, arloesedd a chreadigrwydd – yn enwedig o ran yr economi werdd - yn allweddol i sbarduno twf economaidd a swyddi, gan gysylltu â gwaith sy'n cael ei wneud gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae trafnidiaeth hefyd yn cael - a bydd yn parhau i gael - dylanwad mawr ar y ffactorau sy'n gwneud dinasoedd yn ddeniadol, gan ddarparu mynediad i swyddi a marchnadoedd i fusnesau. Mae system drafnidiaeth integredig sy'n cynnig teithio effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle bydd trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau deniadol dros deithio mewn car, yn allweddol i gyfrannu at y nod o wneud Caerdydd yn brifddinas ddymunol i fyw ynddi.

[5] **Sylwch**: Mae'r rhagamcanion hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon canol 2018, sy'n uwch na'r Cyfrifiad diweddaraf ac amcangyfrifon canol blwyddyn 2021. Felly, crëwyd yr rhagamcanion hyn cyn Brexit a dechrau Covid-19. Er hynny, mae disgwyl i'r boblogaeth dyfu o hyd a chynyddu'r pwysau ar wasanaethau.

## Dinas Anghydradd

Er y bydd twf yn dod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol mawr, bydd hefyd yn dod â heriau sylweddol. Mae angen mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar draws pob maes lles yn benodol. Un o'r prif sbardunau anghydraddoldeb yw tlodi – gyda'r rhai sy'n byw yn ardaloedd mwy difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o ddioddef iechyd gwaeth, cyflogau is, a mwy o droseddu, gan arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau a chyllidebau ar draws y sector cyhoeddus. Gwnaeth y pandemig amlygu'r lefelau o anghydraddoldeb sy'n bodoli ledled Caerdydd, a dim ond gwaethygu fydd hyn yn sgil yr argyfwng costau byw.

Er mwyn codi pobl allan o dlodi, mae angen adferiad economaidd cynhwysol sy'n gyrru datblygiad ac adfywiad ar draws y ddinas – gan ddarparu addysg ragorol, swyddi sy'n talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol a swyddi sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer dilyniant. Er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch iechyd, bydd angen i atal fod wrth wraidd yr ymgais i wella canlyniadau iechyd. Bydd angen dull-system gyfan sy'n amlygu pwysigrwydd – ac yn cefnogi'r cyfraddau sy'n manteisio ar – imiwneiddio a sgrinio yn ogystal â ffyrdd iach a gweithgar o fyw, ac sy'n gwella ffactorau amgylcheddol fel ansawdd aer a mynediad at fannau gwyrdd.

One Planet Cardiff

Our vision for a Carbon Neutral City by 2030



## Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur

Mae'r angen i newid y ffordd rydym yn byw er mwyn lliniaru effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur byd-eang yn her gymhleth a difrifol arall sy'n wynebu holl drigolion Caerdydd, ynghyd â lles dinasoedd a chymunedau ledled y byd. Bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yr angen i addasu i'r newidiadau hyn, a'r angen i ddatgarboneiddio yn effeithio ar sut y caiff yr amcanion a'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun hwn eu cyflawni hyd yn oed. Er mwyn sicrhau twf cynaliadwy a chynyddu gwytnwch ein hecosystemau, mae angen newidiadau mawr o ran defnyddio a chyrchu ynni, y defnydd o geir a chaffael bwyd a gwasanaethau i leihau allyriadau carbon yn sylweddol. Felly mae angen trawsnewidiad sylfaenol ar draws systemau ynni, trafnidiaeth a bwyd. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol y gellir cyflawni hyn i ddarparu seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus sydd, o fwriad, yn cyfrannu at ddinas garbon niwtral ac amgylchedd naturiol iach.

Bydd newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles, yn ogystal ag ar grwpiau poblogaeth penodol mewn cymdeithas – er enghraifft, mae pobl ar incwm isel yn llai tebygol o feddu ar yr adnoddau i addasu i neu adfer o lifogydd neu dywydd eithafol. Mae felly o'r pwys mwyaf fod y newid i sero net yn cael ei reoli'n ofalus i fod yn gyfiawn ac yn deg.

## Ar ôl Covid

Nodweddwyd yr ymateb i'r pandemig gan lefelau digynsail o waith partneriaeth. Mae'r adferiad yn gyfle unwaith-mewn-cenhedlaeth i wasanaethau cyhoeddus weithio'n fwy cydweithredol fyth i leihau annhegwch, gwella iechyd y boblogaeth ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Bydd angen addasu gwasanaethau'n barhaol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol mewn byd ôl-bandemig, tra gallai modelau busnes eraill gael eu herio'n sylfaenol. Trwy symud y meddwl i ganolbwyntio ar sut, drwy gydweithio a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn agosach, y gall Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gael mwy o effaith ar iechyd a lles poblogaeth y ddinas.

Move Eat Sleep Repeat!

Move more, eat well

# Ffyrdd o Weithio

Mae'r galwadau ar wasanaethau cyhoeddus yn esblygu'n gyflym, yn ogystal â'r ffyrdd y mae pobl yn rhyngweithio â'r sector cyhoeddus a'u disgwyliadau. Mae angen trefniadau partneriaeth effeithiol yn fwy nag erioed i ddod â phartneriaid at ei gilydd i ddatrys problemau cymhleth yn y maes gwasanaethau cyhoeddus. Nodweddir gwaith partneriaeth gan y pum ffordd ganlynol o weithio:

### Hirdymor - Cydbwyso anghenion byrdymor tra'n diogelu ein gallu i ddiwallu anghenion hirdymor ein cymunedau hefyd

Mae partneriaid BGC ar y cyd yn gweithio tuag at wneud Caerdydd yn brifddinas gryfach, decach, a gwyrddach, lle mae pob dinesydd yn teimlo y gall gyfrannu at lwyddiant y ddinas ac elwa ohono. Wrth wneud hynny, mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu cyfres o argyfyngau uniongyrchol a hirdymor y mae pob un ohonynt yn mynnu ymateb ar y cyd, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad Caerdydd Yfory. Un rhan bwysig o hyn yw gwella'r defnydd o ddata ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, rheoli gwasanaethau a gwella gwasanaethau, gan adeiladu ar y dull partneriaeth o wneud penderfyniadau ar sail data a ddatblygwyd yn ystod y pandemig Covid-19.

### Cydweithio – Gweithredu ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni ein hamcanion lles.

Fel yr enghreifftiwyd gan yr ymateb i'r pandemig Covid-19, ni ellir ateb yr heriau cymhleth sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus gan un sefydliad, sector neu wasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ar ei ben ei hun - mae angen ymateb system-gyfan gan wasanaethau cyhoeddus y ddinas. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y maes hwn yn ystod y pandemig, bydd angen trefniadau partneriaeth a chydweithredu cryfach i ymateb i gynnydd yn y galw a phroblemau newydd, cymhleth sy'n codi wrth i'r ddinas ddod allan o'r pandemig. Bydd gallu'r BGC i hwyluso'r sgyrsiau sydd angen digwydd ar draws y bartneriaeth yn hollbwysig.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu torri ar draws ffiniau sefydliadol i sbarduno newid a chwalu strwythurau traddodiadol drwy ddatblygu, er enghraifft, modelau 'gweithio lleol' ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys dwyn ynghyd a chyfuno cymunedau asedau a gwasanaethau - gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd a gofal, plismona lleol a'r trydydd sector - er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion lleol. Bydd hefyd yn golygu dylanwadu ar feysydd gwaith eraill, megis datblygu fframweithiau twf economaidd rhanbarthol.

Mae'r Cynllun Lles hwn yn nodi'r materion hollbwysig y mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio arnynt dros y blynyddoedd nesaf; ymgysylltir â'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu'r blaenoriaethau, yn ogystal ag i sicrhau bod cyfleoedd a chyd-ddibyniaethau eraill yn cael eu nodi.

### Integreiddio - Ystyried sut y gallai ein hamcanion lles effeithio ar bob un o'r nodau lles, neu ar amcanion unigol partneriaid

Mae aelodau BGC yn ymrwymedig i weithio ar y cyd tuag at gyflawni'r amcanion cyffredin a'r blaenoriaethau partneriaeth a nodir yn y cynllun hwn, a ategir gan y rhai yn eu priod gynlluniau strategol (**Atodiad A**). Mae'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd wedi'u pennu gan ystyried y nodau lles cenedlaethol ac i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2022 ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro. Mae'r ddau asesiad - ac wedyn y Cynllun hwn - yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd yn bwysig, trwy weithredu/cyflawni'r blaenoriaethau partneriaeth, fod y cysylltiadau'n parhau i gael eu cydnabod a'u hadeiladu i sicrhau bod manteision eang pob maes blaenoriaeth yn cael eu gwireddu.

**Atal - Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i gyflawni ein hamcanion**

Ym mhopeth y mae BGC Caerdydd yn bwriadu ei gyflawni, bydd y Bwrdd yn rhoi ffocws ar ymyrryd yn gynnar, gan fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol ac anelu at, lle bynnag y bo modd, atal problemau cyn iddynt ddigwydd, gan adeiladu gwytnwch. Bydd defnydd effeithiol o ddata yn hanfodol i ddeall achosion sylfaenol problemau, yn hytrach na'r symptomau, a bydd yn helpu i nodi beth allai'r mesurau ataliol mwyaf effeithiol fod, a phryd a ble i ymyrryd. Yn ymarferol, bydd atal yn golygu adnabod plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd a gweithio gyda nhw i bennu'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw cyn gynted ag y bo modd, yn bell cyn i argyfwng godi; bydd angen gweithio i gynnal annibyniaeth ac iechyd pobl sy'n byw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain am gyhyd â phosibl; gwella ein hamgylchedd, - yr aer rydym yn ei anadlu a'r mannau rydym yn byw, chwarae a gweithio ynddynt; a bydd angen gweithio i waredu annhegwch iechyd a thlodi, gan greu dinas sy'n fwy cynhwysol lle mae pob dinesydd yn teimlo bod modd iddo gyfrannu at lwyddiant y ddinas ac elwo ohono.

**Cyfranogiad – Cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r targedau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd**

Er mwyn deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth a charfannau, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu amrywiaeth y ddinas, mae'n bwysig bod atebion lleol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â phobl leol, gan gynnwys pobl a chymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a, lle bo hynny'n briodol, yn y gwaith o'u dylunio a'u darparu. Bydd hyn yn gwneud gwell defnydd o adnoddau drwy wella polisïau a phenderfyniadau, gan gael gafael ar wybodaeth, syniadau ac awgrymiadau newydd hefyd. Fel yr amlygwyd eisoes, datblygwyd y Cynllun Lles hwn trwy ystyried barn dinasyddion; mae 'Adroddiad Trosolwg Ymgynghori' wedi'i gynhyrchu gan y BGC, sy'n rhoi crynodeb o ganfyddiadau allweddol ymarferion ymgynghori perthnasol.

Bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar lefelau cynyddol o ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi ymddieithrio'n ddinesig a phobl ifanc, yn ogystal ag archwilio dulliau ar y cyd a dulliau cyffredin o ymgynghori, yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Bydd sgyrsiau gyda chymunedau'n parhau ac yn ystyried anghenion mwy hirdymor i lywio cynllunio a chyflawni'n barhaus.






# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu

# Cyflwyniad

I nifer o blant a phobl ifanc yn y ddinas, mae Caerdydd eisoes yn lle gwych i gael eich magu. Mae darpariaeth addysgol a chyflawniad dysgwyr wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ddinas yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i adeiladu gyrfa ac i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwylliant.

Er hyn, mae anghydraddoldeb i'w weld yng Nghaerdydd o hyd ac mae'n cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gwnaeth y pandemig amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol ymhellach – gyda'r effaith yn benodol ar blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed y ddinas. Mae mynd i'r afael â'r bwlch anghydraddoldeb yn parhau i fod o'r pwys mwyaf yn y dyfodol, gan ofyn am ddull gweithredu cydlynol ac integredig ar draws partneriaid, gyda dulliau effeithiol o gydlynu gwasanaethau o amgylch y plentyn.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran y plant mewn teuluoedd incwm isel |
| Lles meddwl: plant ac oedolion ifanc, ac oedolion (Dangosydd Cenedlaethol 29) |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 sydd â phwysau iach |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu |
| Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol |
| Nifer y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) |
| Canran y myfyrwyr sy'n ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd |
| Pobl sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Gyrfa Cymru) |
| Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf |

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd eisoes yn lle gwych i lawer o'i phlant a'i phobl ifanc gael eu magu, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn eu cynnig fel amrywiaeth eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae gan Gaerdydd hefyd dreftadaeth gyfoethog o seilwaith gwyrdd a glas sy'n caniatáu i blant gysylltu â'r byd natur a chwarae. Trwy ymrwymiad ein dinas i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, mae Caerdydd yn arwain y ffordd wrth sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael lleisio eu barn ac yn cael y cyfle i'w hanghenion gael eu hystyried, gyda Dull sy'n Seiliedig ar Hawliau'r Plentyn wedi ei ymgorffori yn y system ysgolion, a hefyd ar draws pob agwedd ar wasanaethau cyhoeddus a bywyd dinesig.

Yng Nghaerdydd, mae cyrhaeddiad addysgol wedi gwella bob blwyddyn ers 2012  ac mae ysgolion bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fodd bynnag, fel yn genedlaethol, mae bwlch sylweddol o hyd mewn canlyniadau addysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a'r rheini o gefndiroedd mwy cefnog.

Yn wir, mae gormod o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn y ddinas, sy'n gallu cael effaith andwyol ar ragolygon a lles plentyn yn y dyfodol. Mae plant o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Plentyndod Niweidiol ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir eu bod mewn perygl, sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n cael eu rhoi mewn gofal, yn llawer uwch yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.  Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod plant o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o deimlo unigedd, cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu, neu ddioddef effeithiau trosedd.  Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn darged o ran meithrin perthnasau amhriodol ar-lein a chamfanteisio, yn enwedig os ystyrir eu bod mewn mwy o berygl neu'n agored i niwed.

Mae iechyd a lles ym mlynyddoedd cynnar plentyndod yn effeithio'n arbennig ar ganlyniadau hirdymor. Er bod lefelau iechyd cyffredinol plant yng Nghaerdydd yn dda, mae plant sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth heddiw a dangos symptomau sy'n arwain at iechyd gwael yn y dyfodol.

Ar ben hynny, er bod effaith lawn y pandemig Covid-19 ar blant a phobl ifanc Caerdydd yn dal i gael ei deall yn llawn, mae perygl y gallai gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol, hawliau, lles meddyliol a chorfforol, a llwybrau i gyflogaeth yn y dyfodol. O ganlyniad i gyfnodau clo a chyfyngiadau, gwelodd plant a phobl ifanc newidiadau sylweddol i addysg, wrth i ysgolion gau am nifer o gyfnodau estynedig gan arwain at ddysgu ar-lein, gwahanu oddi wrth ffrindiau a theuluoedd estynedig, a diffyg mynediad i chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Wedi hynny, bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n datgan problemau iechyd emosiynol a meddyliol.  Er i'r pandemig effeithio ar holl blant a phobl ifanc Caerdydd, i blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed y ddinas, mae effaith y pandemig wedi bod yn fwy, gan ehangu annhegwch ymhellach.

[6] Er bod cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd yn golygu nad oes data cymharu cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn ar gael, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerdydd wedi dangos gwelliant nodedig dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngoleuni canlyniadau arolwg Estyn, categoreiddio cenedlaethol a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol o addysg o gymharu â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a chyfartaleddau cenedlaethol

# Caerdydd Yfory

Wrth symud ymlaen, bydd y ddinas yn parhau i weithio i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF, gyda dull Hawliau Plant wedi'i ymgorffori ar draws pob agwedd ar fywyd y ddinas.  Bydd hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth galon pob penderfyniad, gyda'u llais, eu hanghenion a'u blaenoriaethau yn cael eu clywed. Hefyd, bydd y ddinas yn parhau'n ymrwymedig i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda, lle gall pob plentyn gael addysg wych. Mae hyn yn cynnwys darparu'r profiadau, y cyfleoedd a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yng ngweithle'r 21ain ganrif.

Cydnabyddir bod iechyd cyffredinol plentyn - gan gynnwys yr hyn maen nhw'n ei fwyta - yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol yn cael effeithiau hirdymor enfawr. Mae'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol felly o ran gosod y sylfeini ar gyfer iechyd, cyflawniad a lles ar gyfer y dyfodol. Bydd gwella'r nifer sy'n cael eu brechu yn ystod plentyndod, yn ogystal â chynyddu canran y plant a phobl ifanc sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, felly yn flaenoriaeth allweddol i'r ddinas wrth symud ymlaen. Mae chwaraeon yn rhan fawr o ddiwylliant y ddinas – o dimau proffesiynol hyd at y miloedd o dimau a chlybiau llawr gwlad ar draws y ddinas – a bydd sicrhau hygyrchedd i blant a phobl ifanc yn rhan sylfaenol o'r gwaith hwn wrth symud ymlaen.

Yn cyd-fynd â hyn mae'r angen i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n ysmygu yng Nghaerdydd. Y defnydd o dybaco yw'r achos osgoadwy mwyaf o forbidrwydd a marwolaethau yng Nghymru; mae hefyd yn gysylltiedig ag anghydraddoldeb, gyda phobl ifanc yng Nghymru'n fwy tebygol o ysmygu, dechrau ysmygu'n gynt a chael eu hamlygu i fwg tybaco mewn teithiau ceir car os ydyn nhw'n dod o deuluoedd llai cefnog. Mae'n bwysig felly bod ffocws yn cael ei roi ar atal a rhoi'r gorau iddi.

Bydd angen dull gweithredu cryfach ar y cyd hefyd i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion iechyd cymhleth; mae hyn yn cynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Mae gwaith ymgysylltu wedi nodi'r angen am wybodaeth hygyrch a dealladwy, y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, a phontio esmwyth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Yn gysylltiedig â hyn bydd sicrhau bod cefnogaeth a gofal priodol ar gael i ofalwyr ifanc Caerdydd, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl a chefnogaeth i'w haddysg.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd cymorth iechyd meddwl yn gyffredinol yn brif flaenoriaeth i Gaerdydd. Disgwylir i'r cynnydd diweddar yn y galw barhau wrth i effaith hirdymor Covid-19 ar blant a'u teuluoedd ddod i'r amlwg; rhagwelir hefyd y bydd newid hinsawdd a thywydd eithafol yn cael effeithiau sylweddol ar iechyd meddwl a lles wrth symud ymlaen. Bydd cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial a gwrthsefyll pwysau bywyd modern felly yn ganolog i gynnal eu hymdeimlad o les. Yn ogystal â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, bydd mynediad at chwarae, gweithgarwch corfforol a mannau naturiol gwyrdd a glas bioamrywiol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi lles meddyliol.

Ar ben hynny, gan fod nifer y plant sy'n dod i mewn i ofal yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, bydd helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd o'r pwys mwyaf wrth symud ymlaen, gan fod canlyniadau plant ar eu gorau pan gânt eu cefnogi i dyfu i fyny o fewn eu teuluoedd eu hunain. Bydd yn hanfodol felly fod partneriaid – gan gynnwys athrawon, ymarferwyr iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Ieuenctid, y Trydydd Sector ac ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar – yn cydweithio i ddarparu dulliau cydgysylltiedig er mwyn galluogi'r sgyrsiau cywir i ddigwydd ar yr adeg gywir, rhwng y bobl gywir. Mae hyn yn cynnwys datblygu dulliau arloesol o nodi'r rheini sy'n agored i Brofiadau Plentyndod Niweidiol yn gynnar, gan roi ymateb amlasiantaethol, ataliol ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.  Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw.

Yn yr un modd, bydd yn hanfodol i waith barhau mewn partneriaeth i wella gwasanaethau i'r plant hynny sydd yn rhan o - neu sydd wedi dod yn rhan o'r - system cyfiawnder ieuenctid, lleihau nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system a'r rhai sy'n aildroseddu drwy gyflawni'r 'Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd' ar y cyd mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thrais ieuenctid difrifol drwy ddatblygu dull cadarn, integredig a arweinir gan ddata at wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda phobl ifanc.  Bydd symud ymlaen gyda'r Dull sy'n Seiliedig ar Hawliau'r Plentyn yn gofyn am ddatblygu dull holistig o atal plant rhag dod i mewn i'r system gyfiawnder a chefnogi pobl ifanc i fod mewn lle mwy diogel er mwyn gwneud dewisiadau bywyd gwell.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, gan sicrhau bod llais pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei glywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. |
| Drwy Addewid Caerdydd, gwella cydweithio rhwng Ysgolion, Cyflogwyr, a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i ddatblygu dilysrwydd y Cwricwlwm Ysgol yng Nghaerdydd ymhellach, gan gryfhau pŵer addysg i weddnewid dyfodol pobl ifanc ac adeiladu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithleoedd yr 21ain ganrif. |
| Datblygu dulliau arloesol yn gynnar i nodi'r rheiny sy'n agored i Brofiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau), gan roi ymyriadau ataliol, amlasiantaethol ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. |
| Darparu dull gweithredu meithringar, grymusol, diogel a dibynadwy o ran lles emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gwella gwasanaethau ataliol a chefnogi plant sy'n cysylltu mewn trallod seicolegol acíwt. (**Arweinydd Strategol: BPRh**) |
| Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn brechiadau/imiwneiddiadau yng Nghaerdydd, yn enwedig yn y cymunedau/ grwpiau economaidd-gymdeithasol mwyaf difreintiedig, trwy ddarparu dull wedi'i dargedu a arweinir gan ddata. |
| Cynyddu canran y plant a phobl ifanc sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, drwy gyflawni Strategaeth Symud Mwy Bwyta'n Dda 2020-2023. |
| Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu, a rhoi terfyn ar hyn yn y pen draw. |
| Datblygu model gofal integredig - a gwella'r cynnig cymorth - i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy'n cyd-ddigwydd. (**Arweinydd Strategol: BPRh**) |
| Cyflawni cymunedau diogel a chefnogol i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel rhag niwed trwy:<br>• Atal a lleihau troseddu gan blant a phobl ifanc drwy gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid.<br>• Mynd i'r afael â thrais difrifol gan bobl ifanc drwy ddatblygu dull cadarn, integredig sy'n cael ei arwain gan ddata at wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda phobl ifanc. |
| Nodi a chydnabod gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, am y cyfraniad hollbwysig maent yn ei wneud i'r gymuned a'r bobl maent yn gofalu amdanynt, a galluogi gofalwyr di-dâl i fyw bywyd law yn llaw â gofalu. (**Arweinydd Strategol: BPRh**) |






# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn

# Cyflwyniad

Mae'r boblogaeth yng Nghaerdydd yn heneiddio, fel y mae ledled Cymru. Bydd y penderfyniadau a'r camau sy'n cael eu cymryd nawr - mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus – yn hanfodol i helpu i gefnogi pobl i barhau'n iach a byw'n annibynnol gartref wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Rhan allweddol o hyn fydd y ffocws parhaus ar gynllunio cydgysylltiedig a darparu gwasanaethau integredig ar draws gwasanaethau cyhoeddus.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda |
| Canran y bobl 65+ oed sydd â phwysau iach |
| Canran y bobl 65+ sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen |
| Canran yr oedolion 65+ oed sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig |
| Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd |

# Caerdydd Heddiw


Mae dros 50,000 o ddinasyddion 65 oed a hŷn yn byw yng Nghaerdydd, sy'n cyfrannu at bob rhan o fywyd yn y ddinas.


Mae disgwyliad oes yn cynyddu, ac mae'r ddinas wedi cydnabod yr angen i addasu os yw am gefnogi lles corfforol a meddyliol parhaus y boblogaeth hŷn. Dros y blynyddoedd diwethaf mae sylw wedi'i roi i gynllunio cymunedau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pobl hŷn, gan ddatblygu opsiynau tai sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag y bo modd. Mae 86.7% o bobl hŷn (65+ oed) yn teimlo o ganlyniad eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu lles orau, gyda phedwar o bob pump yn teimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth.

Er hynny, mae disgwyliad oes cynyddol hefyd wedi golygu bod nifer uwch o bobl yn dioddef iechyd gwael yn ddiweddarach mewn bywyd ac yn dibynnu ar hyd yn oed mwy o wasanaethau cyhoeddus. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor ac anghenion gofal cymhleth, ac angen aros yn yr ysbyty yn hirach ac amlach. Gall problemau hirsefydlog sy'n ymwneud ag oedi wrth ryddhau cleifion hŷn yn arbennig arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth a chynyddu anghenion gofal hirdymor, ac mae yna angen cydnabyddedig i gynyddu capasiti gofal cymunedol i oedolion. At hynny gall iechyd gwael ymysg pobl hŷn gyfrannu at fwy o allgáu cymdeithasol, sy'n gwahanu pobl hyn oddi wrth eu cymunedau.

Yn ogystal â chynrychioli'r risg fwyaf i bobl hŷn y ddinas, gwnaeth y pandemig Covid-19 gynyddu unigrwydd ac unigedd ymhellach ar gyfer pobl o bob oedran, a chynyddu'r risg o orbryder iechyd, panig, ac iselder. Gwnaeth hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus i lawer o bobl hŷn yn y ddinas, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Er mwyn cwrdd â'r her, cafodd gwasanaethau eu hail-lunio, a mesurau gofal a chymorth ychwanegol eu rhoi ar waith, sydd wedi gweld gwaith partneriaeth cryfach yn para rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y ddinas.

Mae'r pwysau o ran galw a'r costau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yn sylweddol felly, ac ni fyddant yn lleihau. Ochr yn ochr â hyn, mae'r DU yn parhau i wynebu prinder gweithwyr gofal a staff gofal iechyd, gyda'r galw cenedlaethol yn fwy na nifer y gweithwyr sydd ar gael ar gyfer y swyddi hanfodol hyn. Bydd dod o hyd i atebion i'r heriau hirdymor hyn yn golygu y bydd angen i'r gwasanaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaeth agosach fyth i helpu pobl hŷn i gadw'n ddiogel, mor iach ac annibynnol â phosibl, ac i fyw bywydau sydd â gwerth, ystyr a phwrpas.





# Caerdydd Yfory

Disgwylir i'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghaerdydd barhau i dyfu - dros y deng mlynedd nesaf, mae disgwyl y bydd cynnydd o 17.8 % mewn pobl 65+ oed, cynnydd o 9.2 % mewn pobl 85+ a chynnydd o 5.9 % mewn pobl 90+ oed[7]. Mae'n bwysig felly i'r ddinas ganolbwyntio ar greu amgylcheddau sy'n meithrin dulliau o heneiddio'n iach ac yn heini, gan ei gwneud yn bosibl i bobl barhau i aros yn eu cartrefi, cymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu gwerthfawrogi - gan gynnwys digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth - a chyfrannu at eu cymunedau gyhyd â phosibl. Bydd atal unrhyw amser diangen a dreulir yn yr ysbyty yn parhau i fod yn hanfodol i'r agenda hon a bydd gweithio mewn partneriaeth agos yn hanfodol i symud ymlaen ag ymateb strategol, gan gynnwys sefydlu trefniadau asesu interim ar gyfer rhyddhau ac adfer y tu allan i'r ysbyty, sefydlu model gofal ailalluogi ar y cyd, a defnyddio contractau bloc ar gyfer gofal cartref.

Er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn dod yn ddinas sy'n wirioneddol dda i bobl hŷn, bydd angen galluogi pobl hŷn i gael llais yn y materion sy'n effeithio arnyn nhw, gyda chymorth wedi'i gyflwyno mewn lleoliadau sy'n seiliedig ar ardal ac yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn hanfodol i hyn fydd sicrhau bod y staff cywir, gyda'r sgiliau cywir, yn gweithio i ddarparu gofal a chefnogaeth o ansawdd da.

Ar ben hynny, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu parhau i aros yn eu cartrefi gyn hired â phosib, mae'n bwysig bod y ddinas yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu tai fforddiadwy newydd yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys llety hygyrch/hyblyg sy'n caniatáu heneiddio mewn cymdogaethau cerddadwy o fewn cyrraedd hawdd i wasanaethau a gweithgareddau lleol.

Wrth i'r boblogaeth hŷn dyfu, cydnabyddir y bydd anghenion yn parhau i newid - bydd poblogaeth hŷn gynyddol y ddinas yn arwain at fwy fyth o alw ar wasanaethau iechyd a gofal. Yn ogystal â'r galw ar wasanaethau oherwydd breuder ymysg pobl hŷn a chyflyrau meddygol hirdymor, bydd nifer gynyddol o bobl hŷn yn dioddef o broblemau iechyd cronig, megis dementia. Erbyn 2025, rhagwelir y bydd oddeutu 7,000 o bobl yn byw â dementia ledled Caerdydd a Bro Morgannwg; y dyhead yw i Gaerdydd felly fod yn Ddinas sy'n Deall Dementia. Fel rhan o'r uchelgais hwn, mae'n hollbwysig deall beth yw'r ffordd orau o alluogi pobl sydd â dementia i fyw yn y gymuned. Hefyd, bydd yn rhaid i arferion asesu, diagnosio a chynllunio gofal gynnwys cydweithredu gwirioneddol gyda phobl hŷn, eu gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni'r canlyniadau maent yn eu gwerthfawrogi.

Mae'n bwysig ystyried a lliniaru yn erbyn yr effeithiau y gallai'r newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol eu cael ar bobl hŷn – fel llifogydd a thywydd poeth. Yn ogystal â wynebu risg uwch o salwch a marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwres, gall allgáu cymdeithasol gynyddu yn ystod tywydd poeth. Mae pobl hŷn hefyd yn arbennig o fregus yn ystod llifogydd a allai darfu ar eu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn cynyddu gwytnwch yn ogystal â mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac unigrwydd yn gyffredinol, mae angen i gymunedau lleol gael rhwydweithiau cymunedol hygyrch, lleol a chryf i gefnogi anghenion pobl hŷn lle maen nhw'n byw. Gall galluogi pobl hŷn i chwarae rôl yn eu cymunedau, gan ddatblygu gwasanaethau a digwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau, yn ogystal â gwella mynediad at weithgareddau cymunedol a diwylliannol, gefnogi pobl hŷn i gadw'n actif ac mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn. Yn ogystal, bydd yn bwysig archwilio a datblygu ymhellach y potensial o ddatrysiadau digidol fel ffordd o leihau allgáu cymdeithasol – mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan breswylwyr fynediad rhwydd at offer sy'n briodol i'w hanghenion wrth iddynt dyfu'n hŷn.

[7] **Sylwch**: Mae'r rhagamcanion hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon canol 2018, sy'n uwch na'r Cyfrifiad diweddaraf ac amcangyfrifon canol blwyddyn 2021. Felly, crëwyd yr rhagamcanion hyn cyn Brexit a dechrau Covid-19. Er hynny, mae disgwyl i'r boblogaeth dyfu o hyd a chynyddu'r pwysau ar wasanaethau.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
| --- |
| Sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, yn seiliedig ar ardal, sy'n canolbwyntio ar fodloni a gwella iechyd a lles y boblogaeth leol. (**Arweinydd Strategol: BPRh**) |
| Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn, gan sicrhau y gall pobl hŷn fwynhau pob agwedd ar fywyd a'u bod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau i wella eu lles ac i gyfoethogi eu bywydau. |
| Gweithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia sy'n helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i ffynnu ac sy'n sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a phenodol yn cael eu hail-lunio i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad teg ac amserol i ddiagnosis a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir yn lleol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o ddementia a ffyrdd o leihau risg. (**Arweinydd Strategol: BPRh**) |

"Uchelgais Caerdydd… lle mae pobl hŷn yn cael eu grymuso, yn iach ac yn hapus"






# Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

# Cyflwyniad

Mae economi Caerdydd yn un gref. Mae lefelau diweithdra yn cymharu'n dda â Dinasoedd Craidd y DU ac mae ganddi'r ganran isaf ond un o blant sy'n byw ar aelwydydd di-waith o blith Awdurdodau Lleol Cymru. Fodd bynnag, mae bron i un rhan o bump o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) ymysg y 10 % mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran incwm, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig y ddinas wedi parhau i ehangu ac mae gwahaniaethau sylweddol mewn lefelau cyrhaeddiad addysgol yn parhau. Ar ben hynny, yn wardiau mwy difreintiedig Caerdydd, mae safon yr aer yn waeth, mae llai o fynediad at fannau gwyrdd ac mae troseddau wedi'u canoli yn yr ardaloedd hyn.

Er mwyn cefnogi pobl allan o dlodi, felly, bydd angen gweithredu ar sawl ffrynt. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cyfleoedd swyddi a swyddi sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, paratoi pobl gyda'r sgiliau cywir ar gyfer y gweithle, gwella canlyniadau iechyd a chefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd i ddod oddi ar strydoedd y ddinas.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. o dan 60 % o'r incwm canolrifol) fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) (wedi costau tai) |
| Nifer y cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig |
| Nifer y gweithwyr sy'n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf |
| Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywaidd a benywaidd) gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (Dangosydd Cenedlaethol 2) |
| Canran y babanod â phwysau geni isel (Dangosydd Cenedlaethol 1) |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol (SYG) |
| Cysgwyr ar y stryd fesul 10,000 person |
| Tlodi bwyd: Amcangyfrifir bod canran yr unigolion yn y chwe mis blaenorol sy'n a) cael prydau llai na'r arfer neu hepgor prydau bwyd b) colli prydau bwyd i fforddio talu biliau c) llwglyd ond heb fwyta d) derbyn bwyd gan fanc bwyd neu elusen e) heb fwyta am ddiwrnod cyfan f) dim o'r rhain |
| Canran yr Aelwydydd mewn Tlodi Tanwydd |

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd wedi gweld twf economaidd sylweddol yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae patrymau tlodi ac anghydraddoldeb a ddaeth i'r amlwg genhedlaeth yn ôl yn parhau, ac yn cael eu gwaethygu gan effaith barhaol y pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw.

Mae diweithdra cyffredinol yng Nghaerdydd yn isel o gymharu â Dinasoedd Craidd y DU, ac mae cyfradd y rhai sy'n hawlio budd-daliadau, ar y cyfan, wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf er nad ydyw eto wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas gyda'r gyfradd hawlio yn ward Trelái tua 11 gwaith yn uwch nag yn Llys-faen.  Mae canran yr aelwydydd mewn amddifadedd materol wedi gostwng ers 2016-17 ond mae'n dal yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru; yn ogystal, mae chwarter y plant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol.

Mae lefelau tlodi ar draws y ddinas yn cyd-fynd ag anghydraddoldebau iechyd, trosedd, amgylcheddol ac addysgol, gyda thlodi wedi'i ganoli yn y 'Arc Ddeheuol'. Mae dros draean (35.6 % ) o ACEHIau yr ardal hon, sydd â phoblogaeth o tua 155,000 o bobl, yn y 10 %  o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Pe bai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd yn un awdurdod lleol, hwn fyddai'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o bell ffordd.

Er bod lefelau iechyd cyffredinol oedolion yn gymharol uchel, wrth gymharu'r rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig y ddinas, mae gan Gaerdydd un o'r bylchau ehangaf mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru.  Mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ordew, yn llai tebygol o dderbyn brechiadau a sgrinio, yn fwy tebygol o fod yn agored i ansawdd aer gwael ac yn llai tebygol o gael mynediad da i fannau gwyrdd trefol.   Yn ogystal, mae nifer yr achosion o ysmygu ar ei uchaf mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.  Yn ystod y pandemig Covid-19, roedd pobl o gefndiroedd tlotach hefyd mewn mwy o berygl o fynd yn ddifrifol wael gyda'r clefyd. At hynny, ledled Caerdydd, gan gynnwys yn ardaloedd tlotaf y ddinas, mae'r rhan fwyaf o drigolion yn dweud nad yw o leiaf un agwedd ar eu ffordd o fyw yn iach, sy'n tynnu sylw at y ffaith fod angen gwaith sylweddol i annog newid mewn ymddygiad i leihau lefelau o forbidrwydd a marwolaeth cyn pryd y gellir eu hosgoi.

Mae diwylliant yn siapio dinasoedd i weithwyr, trigolion ac ymwelwyr, ac mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fel ased lles allweddol. Tra bod lefelau cyfranogiad diwylliannol yn uchel yng Nghaerdydd, gyda'r ddinas yn arwain Cymru o ran canran ei thrigolion sy'n cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol, mae gwahaniaeth amlwg rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae teuluoedd mwy difreintiedig yn llawer llai tebygol o fynychu gweithgareddau diwylliannol ac felly mae angen gwneud gwaith i wella hygyrchedd.

Mae cyrhaeddiad addysgol wedi gwella bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012  ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fodd bynnag, fel yn genedlaethol, mae bwlch sylweddol o hyd mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a'r rheini o gefndiroedd mwy cefnog ac mae angen gwneud mwy i wella canlyniadau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.  Mae lefelau troseddu yn amrywio ledled y ddinas ac yn uwch yn ne a dwyrain Caerdydd lle ceir crynodiadau o amddifadedd, gan effeithio ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl y rhai sy'n byw yn y cymunedau hyn. Mae Caerdydd wedi gostwng, am y tro cyntaf mewn tair blynedd, yn is na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â theimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio. Mae pobl yn teimlo'n lleiaf diogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas, yn enwedig pobl ag anabledd a menywod. At hynny, mae ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel o gymharu â'r rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas.

[8] Er bod cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd yn golygu nad oes data cymharu cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn ar gael, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerdydd wedi dangos gwelliant nodedig dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngoleuni canlyniadau arolwg Estyn, categoreiddio cenedlaethol, a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol o addysg o gymharu â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a chyfartaleddau cenedlaethol

Fel Dinas Cyflog Byw, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth godi pobl allan o dlodi yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae 197 o gyflogwyr Caerdydd wedi ymuno â chynllun Cyflog Byw Gwirioneddol y ddinas, ac mae dros 10,800 o weithwyr wedi cael eu dyrchafu i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o ganlyniad . Yn dilyn y pandemig, bu gostyngiad dramatig hefyd yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd gyda chyflwyniad y dull gweithredu 'dim mynd nôl' mewn perthynas â digartrefedd. Mae 'dim mynd nôl' wedi'i ganoli ar ddull amlddisgyblaethol o ymdrin â gwasanaethau digartrefedd, gan ddod ag arbenigwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus ynghyd – gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg – er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal neu, os nad yw hyn yn bosibl, yn brin, yn digwydd am gyfnod byr a ddim yn cael ei ailadrodd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y rhai sy'n ddigartref ond sy'n byw mewn llety dros dro - sydd hefyd yn gallu cael effaith negyddol ar les - yn ymgartrefu mewn llety hirdymor cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn dan fygythiad oherwydd yr argyfwng costau byw a fforddiadwyedd tai. Er bod Caerdydd mewn safle canolig i isel o blith Dinasoedd Craidd y DU o ran aelwydydd sy'n profi tlodi bwyd, amcangyfrifir bod 1 o bob 10 aelwyd yn dweud eu bod yn hepgor neu'n lleihau maint prydau bwyd neu'n chwilio am gymorth allanol. Tai Caerdydd yw'r ail leiaf fforddiadwy o blith y Dinasoedd Craidd yng Nghymru a Lloegr, ychydig y tu ôl i Fryste; mae costau eiddo ychydig dros wyth gwaith yr enillion blynyddol gros canolrifol. Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, bydd tlodi bwyd a thanwydd yn codi gyda rhai o'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas, y rhai ar incwm isel a phobl hŷn, yn gorfod gwneud y dewis rhwng 'gwres neu fwyd'.

[9] Ar adeg ysgrifennu (Chwefror 2023).



# Caerdydd Yfory

Mae gwella iechyd a lles yn ganolog i daclo tlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar yr economi ac wedi dyfnhau annhegwch presennol ymhellach, yn enwedig annhegwch iechyd, gyda dinasyddion bellach yn wynebu argyfwng costau byw.  I gau'r bwlch, mae angen adferiad economaidd sy'n sicrhau twf cynhwysol a gwyrdd, gan ganolbwyntio ar wella lles.  Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at swyddi da gyda chyfleoedd ar gyfer dilyniant, parhau i fuddsoddi mewn addysg a chefnogaeth i bobl ifanc i mewn i'r byd gwaith, a chyflymu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Mae hefyd yn cynnwys cyflawni gwelliannau amgylcheddol, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, fel gwell mynediad i fannau gwyrdd a glas, a gwell ansawdd aer a dŵr.

Wrth ddarparu twf cynhwysol, gwyrdd bydd angen buddsoddi mewn seilwaith a swyddi sydd o fudd i ardaloedd mwy difreintiedig y ddinas a chefnogi'r rhai mewn tlodi a'r rhai a effeithiwyd gan y pandemig i gael mynediad at waith, addysg neu hyfforddiant.  Yn benodol, yn wyneb yr argyfwng costau byw, bydd angen hyrwyddo'r fenter Cyflog Byw, gan annog pob cyflogwr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol nid yn unig yng Nghaerdydd ond ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.  Yn hanfodol, bydd angen i gyflogwyr weithio'n agos gydag ysgolion a gwasanaethau i mewn i waith i sicrhau bod cefnogaeth a hyfforddiant priodol yn cael eu rhoi ar waith i gynhyrchu'r sgiliau y mae galw amdanynt.

Atal yw'r allwedd i fynd i'r afael ag annhegwch iechyd.  Mae canlyniadau iechyd unigolyn yn cael eu heffeithio gan y 1,000 diwrnod cyntaf o fywyd ac, mewn oedolaeth, eu dewisiadau ffordd o fyw a'r amgylchedd y maent yn byw ynddo. Felly, bydd angen dull system-gyfan sy'n blaenoriaethu ac yn amlygu pwysigrwydd atal drwy gydol bywyd person ac yn mynd i'r afael â ffactorau a fydd yn cael eu gwaethygu gan y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur, megis fforddiadwyedd bwyd iach ac ansawdd aer.  Mae cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda Caerdydd a'r Fro ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, yn ogystal ag anghydraddoldeb iechyd, yn darparu'r fframwaith ar gyfer hyn, wedi'i alinio â Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir, wrth symud ymlaen, y bydd strategaethau partner allweddol sy'n ymwneud â phwysau iach, bwyd, teithio llesol, gweithgarwch corfforol, ysmygu a mynediad at fannau gwyrdd a glas yn cyd-fynd yn agos â datblygu dulliau arloesol a arweinir gan ddata o ran atal a newid ymddygiad. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys imiwneiddio yn ystod plentyndod, sgrinio, gordewdra, ysmygu ac ansawdd aer.

Mae'r argyfwng costau byw yn her sylweddol sy'n arwain at lefelau cynyddol o dlodi bwyd a thanwydd. Mae newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur dilynol hefyd yn debygol o effeithio ar fforddiadwyedd bwyd hefyd, gydag effeithiau ar gynnyrch cnydau yn arwain at gynnydd mewn prisiau bwyd.  Bydd hyn hefyd yn effeithio ar iechyd pobl sy'n byw mewn tlodi neu aelwydydd ag incwm isel gan y gallai allyriadau CO2 byd-eang uwch effeithio ar werth maethol rhai cnydau ac felly'r gallu i gael gafael ar fwyd iach. Mae partneriaeth bwyd lleol Caerdydd, Bwyd Caerdydd, yn dwyn ynghyd dros 200 o bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gallai'r argyfwng costau byw hefyd arwain at gynnydd mewn digartrefedd.   Yn ogystal â chyflymu'r broses o gyflwyno rhaglen tai fforddiadwy'r ddinas, bydd angen blaenoriaethau'r gwaith o ymgorffori dull gweithredu 'dim mynd nôl' y ddinas tuag at ddigartrefedd, gan weithio mewn partneriaeth i nodi unigolion a theuluoedd sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref ac atal hyn lle bo hynny'n bosibl, tra'n cefnogi a chynorthwyo'r rhai sydd ei angen i gael mynediad i lety parhaol a symud tuag at fyw'n annibynnol heb oedi. Bydd hyn yn cynnwys darparu dull sy'n seiliedig ar drawma ac iechyd y cyhoedd i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd wedi arfer byw ar y stryd.

Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn her i les diwylliannol, gyda theuluoedd mwy difreintiedig hyd yn oed yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.  Felly, mae angen gwaith i gynyddu cyfranogiad drwy sicrhau bod y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a digwyddiadau chwaraeon lleol yn rhesymol hygyrch i bob cymuned.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ac erbyn mis Tachwedd 2025:<br>• Yn cynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw achrededig ledled y ddinas i 300<br>• Yn cynyddu nifer y gweithwyr sydd wedi cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i 13,900. |
| Datblygu dulliau arloesol a arweinir gan ddata i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynyddu gwaith atal yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol, gan gynnwys:<br>• Gwella cyfraddau brechu ac imiwneiddio plant yng Nghaerdydd<br>• Gwella'r nifer sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn<br>• Lleihau nifer y bobl sy'n ysmygu |
| Cynyddu canran y bobl sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, yn enwedig yn y cymunedau mwy difreintiedig, trwy gyflwyno'r Strategaeth Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-2023. |
| Cydweithio i daclo ac atal digartrefedd, gan ganolbwyntio ar ddarparu opsiynau tai cynaliadwy a fforddiadwy ledled y ddinas i gwrdd â'r lefelau cynyddol o angen acíwt am dai, gan gynnwys i'r rhai sydd angen tai penodol gyda chymorth. |
| Adeiladu ar lwyddiant dull 'Dim Mynd Nôl' Caerdydd tuag at gysgu ar y stryd, drwy ddatblygu dull sy'n seiliedig ar drawma ac iechyd y cyhoedd i effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl fregus, yn enwedig y rhai sydd wedi arfer byw ar y stryd. |








# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

# Cyflwyniad

Mae cymunedau wrth wraidd lles.  Maent yn chwarae rôl hanfodol yn cysylltu pobl â'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r gwasanaethau beunyddiol rydym yn dibynnu arnynt.

Mae'r pandemig yn benodol wedi amlygu pwysigrwydd cymunedau diogel, hyderus a grymus wrth i unigolion a sefydliadau ddod ynghyd i gefnogi ei gilydd a'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy'r argyfwng. Mae cymunedau cryf, cydlynol a gwydn hefyd yn adnodd hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae dinasoedd yn eu hwynebu heddiw megis cynnydd mewn mudo byd-eang, poblogaeth hŷn sy'n tyfu, newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau iechyd posibl yn y dyfodol.

Mae cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau a grymuso cymunedau i gyfrannu at wneud gwahaniaeth felly wrth wraidd gwella lles.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27) |
| Canran y bobl sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol) |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartrefi, wrth gerdded yn eu hardal leol, ac wrth deithio) (Arolwg Cenedlaethol) |
| Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) ar y cyfan dros y flwyddyn ddiwethaf |
| Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd |
| Cyfraddau gwirfoddoli |

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd yn ddinas ddiogel. Mae troseddu wedi parhau i ostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae gan y ddinas yr ail gyfradd droseddu isaf o Ddinasoedd Craidd y DU. Mae ganddi hefyd y gyfradd isaf o drais yn erbyn y person a'r ail gyfradd isaf o ddifrod troseddol. Fodd bynnag, Caerdydd sydd â'r drydedd gyfradd droseddu uchaf fesul mil o'r boblogaeth o blith Awdurdodau Lleol Cymru, y tu ôl i ardaloedd trefol Casnewydd a Wrecsam. Ar ben hynny, mae lefelau troseddau yn amrywio ar draws y ddinas, fel y mae canfyddiadau o ddiogelwch. Mae pobl yn teimlo'n lleiaf diogel wrth deithio neu gerdded yng nghanol y ddinas wedi iddi dywyllu ac mae'r rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel o gymharu â'r rheini sy'n byw yn y rhai lleiaf difreintiedig.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran lleihau lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol - gostyngiad o bron i draean ers 2016-17. Fodd bynnag, Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru, gyda mannau poblogaidd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u canoli yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas. Caerdydd hefyd sydd â'r gyfradd uchaf o aildroseddu yng Nghymru, er bod cyfraddau aildroseddu ymhlith pobl ifanc wedi gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ac ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU. A thra bod Caerdydd yn ddinas ddiogel i'r mwyafrif llethol, mae nifer fach o bobl - yn enwedig menywod a phlant - yn destun trais, cam-drin ac ecsploetio. Mae'n debygol bod cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid-19 wedi arwain at dan-adrodd trais domestig ac anawsterau iechyd meddwl.

Mae Caerdydd yn ddinas ddiwylliannol ac amrywiol. Yn ogystal â bod yr awdurdod mwyaf amrywiol yng Nghymru, gyda 21 % o'r boblogaeth yn perthyn i grŵp ethnig leiafrifol, mae ei phoblogaeth ifanc yn dod yn fwyfwy amrywiol gyda 31 % rhwng 0-19 oed o gefndir ethnig leiafrifol. Mae hefyd yn ddinas gydlynol gyda dros dri o bob pum ymatebwr i'r Arolwg Cenedlaethol diweddaraf yn cytuno, lle maen nhw'n byw, fod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. Fodd bynnag, mae bwlch o fewn y ddinas, gyda phobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gytuno. Mae Caerdydd hefyd yn ddinas gynhwysol, ar ôl cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ymgartrefu yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf a chwarae rhan arweiniol yn rhaglen Dinas Gynhwysol y DU. Bydd y cydberthnasau cryf rhwng ac o fewn cymunedau'r ddinas - yn ogystal â'r gefnogaeth y gallant ei rhoi i'r rhai sy'n cyrraedd yn ceisio noddfa - yn dod yn fwyfwy pwysig, gyda mudo byd-eang i gynyddu oherwydd digwyddiadau rhyngwladol ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a bygythiad parhaus terfysgaeth.

Fel y dangoswyd yn ystod y pandemig, mae gwirfoddoli'n chwarae rhan ganolog mewn lles cymunedol, cydlyniad a gwydnwch yn wyneb newid. Mae'n cynnig ymdeimlad o bwrpas, yn grymuso unigolion a chymunedau i gefnogi ei gilydd i wneud gwahaniaeth, ac yn lleddfu unigrwydd trwy ffurfio cysylltiadau cymdeithasol. Gydag ychydig dros chwarter y bobl yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn gwirfoddoli, mae gan y ddinas ymdeimlad cryf o ddyletswydd ddinesig, a gyda dros 1,000 o bobl yn ymateb i'r alwad i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed ar ddechrau Covid-19, mae'r ddinas mewn sefyllfa dda i adeiladu ar hyn i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ei chymunedau, fel diwallu anghenion poblogaeth hŷn sy'n tyfu a'r argyfwng costau byw.

> "Mae cymunedau hyderus a grymus wrth wraidd lles"

# Caerdydd Yfory

Bydd adeiladu cymunedau diogel, hyderus a gwydn yn dibynnu ar ddeall achosion troseddu a chymryd camau ataliol; gweithio fel un gwasanaeth i ymyrryd ar y cyfle cyntaf i ddiogelu pobl rhag niwed; a grymuso cymunedau i fynd i'r afael â materion lleol a gwneud y cysylltiadau sy'n darparu cymunedau cryf a chydlynol.

Mae angen ymagwedd system-gyfan i leihau trais yn economi'r nos, troseddau difrifol a chyfundrefnol a thrais yn erbyn y person yn ei holl ffurfiau. Bydd hyn yn golygu mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o ddeall trais a defnyddio'r dystiolaeth i ddatblygu ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol. Bydd hefyd yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng yr holl bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, iechyd a'r Trydydd Sector, i adnabod problemau sy'n dod i'r amlwg ac i gyflawni atebion amlasiantaethol a arweinir gan dystiolaeth ar lefel leol.

Bydd cymryd camau prydlon a chynaliadwy i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch cymunedol lleol yn gofyn am gydweithio ar draws gwasanaethau, gan alluogi cyflwyno mesurau diogelwch cymunedol dargyfeiriol ac ataliol yn gyflym. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy adeiladu ar lwyddiant Grŵp Datrys Problemau Caerdydd, gan dargedu adnoddau wrth i broblemau godi ac mewn mannau poblogaidd ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn lleihau'r ofn o droseddu ac yn ei dro wella bywydau trigolion.

Bydd grymuso cymunedau yn allweddol i gwrdd â nifer o'r heriau y mae'r ddinas yn eu hwynebu ar hyn o bryd a rhai cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus, newid yn yr hinsawdd, annhegwch iechyd a chynnydd mewn lefelau allgáu cymdeithasol oherwydd y boblogaeth hŷn gynyddol. Bydd cymunedau grymus hefyd yn hanfodol i gydlyniant, gan gefnogi pobl sy'n cael trafferth gyda chostau byw ac ymateb i argyfyngau iechyd y dyfodol. Bydd helpu cymunedau i gael mynediad i'r gwasanaeth priodol y tro cyntaf yn ein helpu i wynebu'r her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Bydd cynnwys cymunedau wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu eu hanghenion. O ystyried twf y ddinas a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysicach nag erioed i gymunedau a phreswylwyr deimlo y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio'r ddinas a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio. Ar ben hynny, bydd harneisio gwybodaeth leol arweinwyr cymunedol a phŵer gwirfoddoli yn darparu'r rhwydweithiau cymorth sydd eu hangen i gefnogi a datblygu gwasanaethau ar lefel gymunedol. Bydd cynnal y rhwydweithiau hyn hefyd yn ganolog i les a chydlyniad diwylliannol sy'n arwain at gymunedau cryf a gwydn.

Bydd amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau rhag camdriniaeth, ecsbloetiaeth, effeithiau camddefnyddio sylweddau a phob math o eithafiaeth a radicaleiddio nid yn unig yn gofyn am waith partneriaeth agos ond hefyd am ddatblygiad diogelu cyd-destunol i ddeall y problemau sy'n wynebu unigolyn, teulu neu gymuned. Bydd hyn yn golygu rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau, ond hefyd sicrhau bod gan y rhai sy'n gweithio a byw mewn cymunedau y gallu a'r hyder i adnabod a rhoi gwybod am arwyddion o niwed. Bydd hyn yn galluogi darlun cynhwysfawr o gysylltiad unigolyn â gwasanaethau a pherthnasau y tu allan i'r uned deuluol i gael ei lunio, gan gydnabod bod y perthnasau y mae pobl yn eu ffurfio yn eu cymdogaethau, ysgolion ac ar-lein yn gallu cynnwys trais a cham-drin. Bydd hefyd yn cefnogi'r broses o gyflawni dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ac iechyd y cyhoedd i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd wedi arfer byw ar y stryd.
Bydd Caerdydd yn parhau i arwain fel Dinas Noddfa wrth groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adeiladu bywydau newydd ac ymgartrefu yng Nghymru, a bydd amrywiaeth a bywiogrwydd diwylliannol y ddinas yn parhau i gael eu dathlu. Mewn ymateb i argyfyngau fel Wcráin a'r potensial o symud pobl oherwydd newid hinsawdd, bydd gofyn am waith partneriaeth agos, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, i ddarparu mynediad i'r gwasanaethau llety, iechyd, cyflogaeth a chynghori arbenigol sydd eu hangen. Bydd angen gweithio gyda chymunedau a grymuso cymunedau i gefnogi newydd-ddyfodiaid i chwarae rhan lawn ym mywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y brifddinas hefyd i barhau i adeiladu cymunedau cryf a chydlynol.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol statudol newydd, a ategir gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd o leihau trais. |
| Mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chymryd camau i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys cytuno ar - a gweithredu - strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |
| Gweithio mewn partneriaeth i adnabod achosion o bobl sy'n agored i niwed ac atal niwed yn economi'r nos. |
| Diogelu'r sawl sydd mewn perygl o ecsploetiaeth a'r rhai sydd wedi dioddef trosedd. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori dull cyd-destunol o ddiogelu ledled Caerdydd. |
| Amharu ar y cyflenwad anghyfreithlon o sylweddau yn ein cymunedau i atal ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag ecsploetiaeth, esgeulustod, a cham-drin, ac i leihau troseddau treisgar. |
| Lleihau - ac yn y pen draw atal - niwed i iechyd a lles o ddefnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar atal ac adnabod yn gynnar ddefnydd niweidiol o alcohol a datblygu atebion amgen diogel i bobl sy'n defnyddio sylweddau mewn mannau cyhoeddus ar hyn o bryd. |
| Gweithredu strategaeth gwrthderfysgaeth CONTEST a gweithio mewn partneriaeth i ymateb i ofynion y Ddyletswydd PROTECT newydd. |
| Cyflawni prosiectau lleol sy'n seiliedig ar bartneriaeth sy'n mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sylweddol drwy ddull datrys problemau. |
| Sefydlu dull partneriaeth o leihau nifer y bobl hŷn sy'n dioddef twyll. |
| Parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth San Steffan am arian ychwanegol a mwy cynaliadwy i dalu am gost plismona'r brifddinas, fel sy'n wir ym mhrifddinasoedd eraill y DU. |
| Croesawu a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adeiladu bywyd newydd yng Nghaerdydd, gan gynnwys parhau i arwain yr ymateb lleol i argyfyngau Wcráin ac Affganistan. |







BACK

# Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru

# Cyflwyniad

Fel canolfan o greadigrwydd, diwylliant ac amrywiaeth, mae economi Caerdydd yn chwarae rôl ganolog i Gymru. Mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas-Ranbarth ehangach, yn ogystal â'r genedl.

Bydd parhau i gyflawni dros bobl Cymru yn gofyn i ni ddatblygu economi sy'n canolbwyntio ar wella lles; bydd hyn nid yn unig yn gwella mantais gymharol ond yn sicrhau cynaliadwyedd gweithgarwch economaidd ac yn denu buddsoddiad ac arloesedd. Bydd denu buddsoddiad ac arloesedd o fudd i bob cymuned drwy wella cynhyrchiant, gan arwain at swyddi gwell a mwy o ffyniant - gan gynnwys ymdrechion i sicrhau economi natur-gadarnhaol a sero-net.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16+ oed sy'n economaidd weithgar |
| GYC y pen |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen |
| Cyflogeion â thâl bob awr sy'n is na'r cyflog byw |
| Canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed sydd â chymwysterau NVQ4+ (lefel gradd neu gyfwerth) |
| Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth y mae trigolion Caerdydd yn dechrau arnynt yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus |
| Presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol, llefydd hanesyddol ac amgueddfeydd |
| Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg |

# Caerdydd Heddiw

Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, yn gwneud cyfraniad allweddol at greu swyddi a chyfoeth i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach. Mae Caerdydd yn cyfrif am 19 % o Werth Ychwanegol Crynswth Cymru ac mae Prifddinas-Ranbarth De-ddwyrain Cymru hefyd yn creu dros hanner cynnyrch economaidd Cymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y bobl a'r busnesau sy'n byw ac yn gweithredu yn y brifddinas. Mae sgiliau lefel uchel yn uwch na'r cyfartaledd ac mae nifer yr oedolion heb sgiliau yn isel. Mae gan y ddinas hefyd bresenoldeb prifysgol cryf, gyda thair prifysgol, sy'n gartref i arbenigedd ymchwil sy'n arwain y byd.

Er bod gan Gaerdydd y blociau adeiladu ar gyfer economi gystadleuol, mae cynhyrchiant yn dal y tu ôl i nifer o ddinasoedd blaenllaw'r DU, sydd yn ei dro'n effeithio ar enillion. Fodd bynnag, mae nifer y cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Caerdydd sydd â'r ganran isaf o swyddi sy'n talu llai na'r Cyflog Byw yng Nghymru, ac mae ymhlith yr isaf o'r Dinasoedd Craidd.

Mae lefelau diweithdra cyffredinol yng Nghaerdydd yn isel, ond mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas. Roedd canran y bobl o oedran gweithio a oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn gymharol sefydlog rhwng 2016 a 2018, cyn gostyngiad graddol dros y ddwy flynedd ganlynol. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2020, dechreuodd hawliadau gynyddu'n sydyn, gan gyd-daro â dechrau'r pandemig. Ers hynny mae'r gyfradd wedi gostwng ond mae'n parhau fymryn yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Ar ben hynny, mae cyfradd hawlwyr Caerdydd yn dangos problem barhaus gydag anghydraddoldeb gofodol yng Nghaerdydd, gyda chyfraddau'n sylweddol uwch ym mhumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth. Mae'r gyfradd hawlwyr yn Nhrelái tua 11 gwaith yn uwch nag yn Llys-faen, er enghraifft.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, defnyddiwyd diwylliant yn ddyfeisgar i drawsnewid Caerdydd; mae cynnig diwylliannol y ddinas felly yn faes o fantais gystadleuol, gydag isadeiledd y ddinas a'r cynnig eang yn cael eu cydnabod gan ddinasyddion ymysg y gorau yn Ewrop. Mae sîn ddiwylliannol y ddinas, ei chynnig chwaraeon a hamdden, a'i lletygarwch a manwerthu yn rhai o'r prif bethau sy'n denu trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac mae ganddynt oll ran hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant economaidd y ddinas a'i lles diwylliannol a chymdeithasol. Mae'r sectorau hyn i gyd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig ac wedi cael eu rhoi wrth galon yr ymdrechion adfer wrth symud ymlaen, gan groesawu'r rôl y mae pob sector yn ei chwarae wrth siapio canol y ddinas. Er bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y pandemig, mae yna arwyddion o adferiad wedi'r pandemig.

Mae'r Gymraeg hefyd yn rhan bwysig o les diwylliannol yng Nghaerdydd a Chymru, fel rhan annatod o bwy ydyn ni fel cenedl, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Rhwng 2001 a 2021, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi cynyddu gan dros 31 %, gyda ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 17.5 % o boblogaeth 3+ oed y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, bydd y ddinas yn parhau i wynebu heriau wrth symud ymlaen. Gyda pharhad gweithio hybrid, mae'n annhebygol y bydd cynifer o weithwyr swyddfa yn dychwelyd i'r ddinas, a bydd y symudiad tuag at siopa ar-lein yn debygol o barhau. Fodd bynnag, mae hyn yn gyfle i ailddychmygu'r ddinas fel tirwedd newydd gyda digwyddiadau, gofodau a phrofiadau diwylliannol sy'n dod â phobl at ei gilydd tra'n creu gofod pwrpasol ar gyfer crynodiad o fusnesau gwerth uchel.



# Caerdydd Yfory

Bydd dinasoedd yn parhau i fod yn ganolfannau cyflogaeth o bwys cenedlaethol.  Er y bydd gweithio gartref ac ystwyth yn effeithio ar sut mae dinasoedd yn cael eu defnyddio gan fusnesau a gweithwyr, a bydd yn rhaid i ganol dinasoedd addasu i'r newid i fanwerthu ar-lein - bydd crynhoi, arloesi a chreadigrwydd yn parhau i sbarduno twf economaidd a swyddi.  Fel dinas graidd Cymru, bydd Caerdydd yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn economi Cymru ar ôl Covid, gan greu ffyniant economaidd - nid yn unig i drigolion Caerdydd, ond i bobl Cymru.  Bydd hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid - ym mhob sector – i sicrhau economi gryfach, decach a gwyrddach.

Er mwyn ymateb i effeithiau'r pandemig a chynyddu cynhyrchiant, mae angen cynnal ffocws ar ddarparu mwy o swyddi, a swyddi gwell. Mae parhau i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yn parhau i fod yn hanfodol i hyn - nid yn unig y mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu pob gweithiwr unigol, mae hefyd yn helpu busnesau lleol drwy gadw incwm ychwanegol o fewn y ddinas.

Gan edrych ymlaen, bydd yr adferiad economaidd yn arw, gyda rhai sectorau'n parhau i gael eu heffeithio gan waddol y pandemig, yn enwedig y sectorau hynny –megis lletygarwch a manwerthu – sydd fel arfer yn cyflogi pobl ifanc, menywod a phobl o gefndir ethnig leiafrifol. At y dyfodol, bydd angen i'r ddinas ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau a chefnogi pobl ifanc, menywod a gweithwyr a ddisodlwyd gan y pandemig i mewn i waith, gan wneud yn siŵr y bydd y gefnogaeth hon ar gael i gymunedau ethnig leiafrifol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch mewn gweithgarwch economaidd a chyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod sgiliau'n cyd-fynd ag uchelgais Caerdydd i wella'n ffyniannus, gwyrdd a chyfartal, yn ogystal â'r ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth i'r ddinas bontio at economi sy'n hyrwyddo lles. Bydd denu mewnfuddsoddiad i greu swyddi yn niwydiannau gwerth-uchel y dyfodol - gan gynnwys yr economi werdd - yn ogystal â chreu swyddi hygyrch o ansawdd da ar draws cymunedau Caerdydd i wella lles economaidd a chymdeithasol hefyd yn parhau i fod yn hanfodol.

Bydd yn hanfodol i Gaerdydd ymateb i'r heriau hyn drwy gymryd rôl fwy actif yn y ffordd y caiff canol y ddinas ei reoli. Wrth i'r economi ailstrwythuro a gofod yng nghanol y ddinas gael ei ailbwrpasu, rhaid gwneud hynny mewn ffordd sy'n ychwanegu at y ddinas, boed yn ofod swyddfa a chydweithio gwell a mwy priodol, sgwariau a gofodau cyhoeddus newydd, neu amgylchedd canol dinas gwyrddach sy'n ceisio codi safonau amgylcheddol, gwella cynaliadwyedd a lleihau allyriadau carbon. Yn gysylltiedig â hyn, mae hefyd yn bwysig ystyried sut y bydd gofodau'r ddinas yn perfformio mewn hinsawdd sy'n newid a chyda rhagolygon o ddigwyddiadau tywydd eithafol cynyddol; bydd addasu yn allweddol, gan sicrhau bod isadeiledd - hen a newydd - yn cwrdd â'r safonau adeiladu uchaf. Drwy aliniad rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gellir cyflawni hyn gyda dychymyg ac egni, gan ddenu buddsoddiad a thalent newydd.

At hynny, bydd angen gosod chwaraeon, cerddoriaeth a digwyddiadau diwylliannol sy'n adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd wrth wraidd adferiad.  Maent nid yn unig yn chwarae rhan allweddol wrth roi'r ddinas ar y llwyfan rhyngwladol - gan ddenu ymwelwyr a buddsoddiad i Gymru - ond hefyd mewn lles diwylliannol, gan atgyfnerthu enw da Caerdydd fel dinas groesawgar a chynhwysol. Bydd dathlu'r Gymraeg hefyd yn bwysig i les diwylliannol, gan sicrhau ei bod yn cael ei diogelu a'i meithrin er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu ei defnyddio a'i mwynhau. Fel y nodir yn Strategaeth Caerdydd Dwyieithog (2022-27), y weledigaeth ar gyfer y ddinas yw datblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog, lle gall dinasyddion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad at wasanaethau a chymorth, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a hynny'n gyfartal. Bydd angen i'r BGC wneud popeth o fewn ei allu felly i gefnogi'r uchelgais o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas erbyn 2050, gan gefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd - ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau yn unig - i 20%.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
| --- |
| Cydweithio i gynnig cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth newydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. |
| Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi rhaglen digwyddiadau mawr Caerdydd, gan feddwl am eu heffaith ar gost darparu gwasanaethau cyhoeddus. |
| Anelu i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050. |
| Cydweithio i wneud y mwyaf o hamdden awyr agored, gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd a glas. |
| Cydweithio i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi wrth ddatblygu ac adeiladu seilwaith sector cyhoeddus newydd mawr, megis ystadau iechyd neu awdurdod lleol, gan sicrhau bod seilwaith newydd yn cefnogi'r ddinas i gyflawni datgarboneiddio a gwydnwch hinsawdd i wella iechyd a lles ein cymunedau. |






# Caerdydd Un Blaned

# Cyflwyniad

Newid yn yr hinsawdd, defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol a'r argyfwng natur cysylltiedig yw rhai o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu cymdeithas, gan effeithio ar bob maes lles.




Mae effeithiau'r argyfwng hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghaerdydd gyda thywydd mwy eithafol a newidiadau mewn bioamrywiaeth. Mae hyn wedi dod â chostau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig oherwydd effeithiau tywyd poeth, llifogydd a chynnydd ym mhrisiau bwyd.

Wrth i'r ddinas barhau i dyfu, mae angen newidiadau sylweddol i'r ffordd rydyn ni'n byw i leihau allyriadau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd i ddod yn ddinas un blaned. Gyda thywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin, mae angen i ni sicrhau bod ein hadeiladau a'n seilwaith yn wydn, a gwneud addasiadau yn ôl y galw.

Mae Strategaeth Un Blaned Caerdydd yn nodi'r camau a fydd yn caniatáu i'r ddinas ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth a chyrraedd ei nod o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd y pum mlynedd nesaf yn hollbwysig i beri i hyn ddigwydd.

# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Allyriadau CO2 fesul pen o'r boblogaeth (BEIS) |
| Rhaniad moddol trafnidiaeth gynaliadwy |
| Lefelau Nitrogen Deuocsid (NO2) a lefelau llygredd deunydd gronynnol (PM10, PM2.5) yn yr aer |
| Defnydd o/agosrwydd at fan naturiol hygyrch:<br>• Ansawdd: Nifer y safleoedd sy'n bodloni meini prawf Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.<br>• Hygyrchedd: Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded i fan gwyrdd o ansawdd uchel. |
| Canran y nodweddion dynodedig mewn safleoedd cadwraeth gwarchodedig sydd mewn cyflwr 'ffafriol'. Safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) |
| Canran trigolion Caerdydd sy'n teimlo'n hyderus fod y bwyd maen nhw'n ei brynu yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd ecogyfeillgar |

# Caerdydd Heddiw

Newid yn yr hinsawdd yw un o’r bygythiadau mwyaf difrifol i Gaerdydd gydag effeithiau fel cynnydd yn lefel y môr, mwy o dywydd eithafol, llygredd aer, prinder adnoddau naturiol a chydnerthedd ecosystemau yn rhoi’r ddinas a lles dinasyddion mewn perygl uniongyrchol. Wrth i boblogaeth y ddinas dyfu, mae rheoli effeithiau’r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr.

Caerdydd sydd â’r ail ffigwr uchaf ar gyfer allyriadau $CO_2$ y pen o blith Dinasoedd Craidd y DU, gydag allyriadau o drafnidiaeth a chartrefi yn cynrychioli’r rhan fwyaf o’i hôl troed carbon.  Er bod mwy na 51 % o drigolion Caerdydd yn yr arolwg trafnidiaeth diweddaraf wedi dweud eu bod yn teithio i’r gwaith drwy ddulliau teithio cynaliadwy, a’r newid sylweddol sydd wedi bod i ddefnyddio’r beic fel dull teithio, mae’r ddinas yn parhau i weld mwy o draffig modur na holl awdurdodau lleol eraill Cymru. Ers 2016-17, mae’r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (bws a rheilffyrdd) ond wedi cynyddu ychydig, o 16.8 % i 18.1 %, ac mae beicio’n cyfrif am ddim ond 15 % o’r holl deithiau.  At hynny, mae’r galw am ynni’n parhau i godi gydag Adroddiad Pweru Dinasoedd y Dyfodol (2016) yn rhagweld, o holl ddinasoedd mawr y DU, mai Caerdydd fydd yn gweld y cynnydd mwyaf sylweddol yn y galw am drydan a nwy domestig rhwng 2015 a 2035, ar 44 % a 28 % yn y drefn honno.   Mae angen cyflymiad sylweddol yn y newid i fathau cynaliadwy o deithio a ffynonellau adnewyddadwy o gynhyrchiant ynni.

Mae allyriadau’n gwneud mwy na sbarduno newid yn yr hinsawdd - maen nhw’n fygythiad sylweddol i iechyd hefyd.  Amcangyfrifir y gellir priodoli’r hyn sy’n cyfateb i hyd at 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru i lygredd aer, ac mae’r risg i iechyd ar ei fwyaf ar gyfer pobl sy’n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle mae iechyd cyffredinol ac ansawdd aer yn tueddu i fod waethaf. Mae data modelu yn dangos mai gan Gaerdydd y mae’r lefelau uchaf o lygredd Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a Deunydd Gronynnol (PM2.5 a PM10) yng Nghymru.  Mae ansawdd aer gwael oherwydd lefelau Deunydd Gronynnol hefyd yn effeithio’n andwyol ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae rhagamcanion gan y Grŵp Arbenigwyr Ansawdd Aer (2019) yn awgrymu, er bod allyriadau peipen wacáu yn debygol o barhau i ostwng yn dilyn symudiad tuag at gerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn, fod allyriadau nad ydynt o beipiau gwacáu fel treulio teiars ac arwynebau ffyrdd yn debygol o dyfu yn unol â lefelau traffig cynyddol. Bydd angen i leihau allyriadau drwy leihau’r defnydd o geir fod yn brif flaenoriaeth.

Mae Caerdydd yn elwa o gael amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, gyda’i pharciau, ei hafonydd a’i glannau’n cyfrannu’n sylweddol at ei heconomi ac iechyd a lles.  Caerdydd sy’n perfformio orau yng Nghymru o ran pa mor hawdd yw hi i gerdded i fannau gwyrdd lleol, a hi sydd â’r nifer fwyaf o wobrau’r Faner Werdd yng Nghymru.   Fodd bynnag, yn ogystal ag argyfwng hinsawdd, mae ‘na argyfwng natur hefyd. Mae adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio ar lefel anghynaliadwy. Ar ôl gostyngiad o ddwy flynedd, mae cyfradd ailgylchu trefol bresennol Caerdydd - fel yr adroddwyd yn y sefyllfa canol blwyddyn 2022/23 gronnol - ychydig yn uwch na’r targed o 64 % a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ar 64.02 %. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y ddinas yn cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70 % erbyn 2025.  Yn fyd-eang ac yn lleol, mae gorddefnydd a dulliau cynhyrchu, ynghyd ag allyriadau, yn effeithio’n sylweddol ar fioamrywiaeth a’r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt.  Mae hyn yn debygol o arwain at ansicrwydd bwyd, gyda chynnydd prisiau bwyd yn effeithio ar y gallu i gael gafael ar fwyd iach, yn enwedig i’r rhai sy’n byw mewn tlodi a theuluoedd incwm isel. Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol genedlaethol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, er mwyn annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru. Mae’r ddinas hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diogelwch bwyd - yn 2021, Caerdydd oedd y lle cyntaf yng Nghymru i ennill Statws Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ennill Statws Aur.

Healthy Travel Cardiff



# Caerdydd Yfory

Mae Strategaeth Un Blaned Caerdydd yn nodi map ffordd y ddinas ar gyfer ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, a throi'n ddinas carbon niwtral erbyn 2030. Yn benodol, mae angen newid mawr wrth ddefnyddio a chyrchu ynni, defnyddio'r car a chaffael bwyd a gwasanaethau. Bydd gan Fwrdd Partneriaeth Argyfwng Hinsawdd BGC Caerdydd rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.

Wrth i boblogaeth Caerdydd dyfu, felly hefyd y bydd ei hallyriadau a'i chyfraniad at y galw byd-eang ar adnoddau naturiol cyfyngedig os na weithredwn, gan arwain at gyflymu newid hinsawdd a'i effeithiau ar yr amgylchedd, bioamrywiaeth a'n hiechyd a'n lles. Amcangyfrifir y bydd angen rhwng 19,000 a 30,500 o gartrefi newydd ar Gaerdydd a 30,000 a 43,000 o swyddi newydd erbyn 2036. Yr allwedd i dwf cynaliadwy fydd sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at ddinas carbon niwtral, gan leihau'r defnydd o'r car a chynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni lleol ac adnewyddadwy. Yn hanfodol i hyn fydd bwrw 'mlaen â'r uchelgais o greu 'dinas 15 munud' gyda chymdogaethau cerddadwy, sy'n galluogi trigolion i gael mynediad i'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt yn ddyddiol o fewn tafliad carreg o'u cartref. Bydd hefyd yn bwysig datblygu economi gylchol, er mwyn lleihau effaith defnydd, cynhyrchu nwyddau a darparu gwasanaethau ar yr amgylchedd.

Caerdydd sydd â'r boblogaeth 'teithio i'r gwaith' fwyaf yng Nghymru, felly bydd angen newid sylweddol at ddulliau cynaliadwy o deithio ar lefel leol a rhanbarthol os yw'r ddinas am wneud newid sylweddol o ran lleihau ei hallyriadau a gwella ansawdd aer. I ateb yr her hon bydd angen parhau i fuddsoddi mewn systemau trafnidiaeth gyhoeddus, datblygu rhwydwaith teithio llesol Caerdydd ymhellach a'i hyrwyddo i weithlu a thrigolion y ddinas, a defnyddio egwyddorion teithio lleol ar gyfer cynllunio cymunedau.

Bydd gwyrddio seilwaith y ddinas hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth leihau ôl troed carbon Caerdydd, yn ogystal â gwella ansawdd aer a chefnogi bioamrywiaeth. Bydd hyn yn gofyn am dechnegau rheoli tir sy'n ysgogi ac yn cefnogi cynefinoedd a dal carbon. Mae rhaglen plannu coed ledled y ddinas yn cael ei datblygu drwy'r prosiect Coed Caerdydd gyda tharged i gynyddu canopi coed y ddinas o 18.8% i 25% erbyn 2030.

Erbyn y 2050au yng Nghymru, rhagwelir y bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn codi 1.34 gradd, gyda disgwyl i lawiad yr haf ostwng tua 16%. Rhagwelir y bydd glawiad y gaeaf yn codi 5% a rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi 24cm yng Nghaerdydd. Erbyn y 2080au, rhagwelir y bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn cynyddu 3.03 gradd, mwy na dwbl yr hyn a ragamcanwyd ar gyfer y 2050au, a rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi 42cm yng Nghaerdydd. Mae'r canlyniadau i'r amgylchedd ac iechyd a lles yn eang ac nid yw'r risgiau wedi'u dosbarthu'n gyfartal, gyda rhai o'r cymunedau mwyaf agored i niwed a difreintiedig yn fwy tebygol o wynebu'r effeithiau mwyaf difrifol. Mae pobl ar incwm isel yn llai tebygol o fod â'r adnoddau i addasu i lifogydd neu adfer ohono ac yn fwy tebygol o fyw mewn adeiladau sydd wedi'u haddasu'n wael i dymereddau uchel. Gallai tywydd mwy eithafol hefyd gael cryn effaith ar bobl hŷn. Yn ogystal â wynebu risg uwch o salwch a marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwres, gall allgáu cymdeithasol gynyddu yn ystod tywydd poeth. Mae pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn arbennig o fregus yn ystod llifogydd a allai darfu ar eu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd angen rhoi blaenoriaeth i addasu seilwaith y ddinas. Bydd angen addasu cartrefi, adeiladau ac isadeiledd er mwyn diogelu cymunedau rhag effeithiau ariannol ac iechyd llifogydd a thonnau gwres. Bydd angen atebion sy'n seiliedig ar natur a dulliau addasol eraill hefyd, er mwyn lleihau effaith datblygiad ar gynefinoedd naturiol ac ansawdd dŵr, gan alluogi adferiad natur.

Fodd bynnag, newid ymddygiad yw un o'r heriau mwyaf i gyflawni dinas 'sero-net' a natur-gadarnhaol. Bydd angen i bawb gymryd camau i newid y ffordd rydyn ni'n byw gartref, yn y gwaith ac yn ein cymunedau. Bydd lleihau defnydd o'r car, lleihau'r defnydd o ynni drwy ddefnyddio cynhyrchion a thechnolegau gwyrdd, a bwyta bwyd carbon is ac iachach yn gwneud y gwahaniaeth. Yn allweddol i hyn fydd cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau, addysg, a rhoi'r mesurau a'r seilwaith cymdeithasol, economaidd a sefydliadol ar waith sy'n gwneud gweithredu carbon isel y 'dewis naturiol'.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn Yn: |
|---|
| Gosod uchelgais lleihau carbon ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. |
| Arwain rhaglen waith ar newid ymddygiad a datblygu amgylcheddau galluogol gyda staff BGC, gan ganolbwyntio ar deithio, defnydd o ynni a bwyd. |
| Cydweithio i bontio i fflyd sector cyhoeddus allyriadau isel drwy:<br>• Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau depo a rennir, optimeiddio cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan integredig, a chyflenwad ynni adnewyddadwy uniongyrchol posibl.<br>• Archwilio cyfleoedd technegol a allai alluogi sefydliadau partner i ddefnyddio'u seilwaith gwefru ar-y-safle presennol ei gilydd.<br>• Archwilio cyfleoedd i ddatblygu trefniadau caffael a rennir ar gyfer cerbydau fflyd trydan newydd. |
| Cydweithio i leihau effaith carbon gweithgareddau caffael aelodau BGC a symud tuag at economi gylchol. |
| Cydweithio i leihau carbon mewn ystadau gwasanaeth cyhoeddus drwy:<br>• Gymharu a choladu amcangyfrifon costau cyffredinol ar gyfer sero-net erbyn 2030 ymhlith yr holl bartneriaid, a nodi bylchau ariannu, materion strategol, a chyfleoedd i drafod ymhellach gyda llunwyr polisi.<br>• Sefydlu atafaelu carbon, plannu coed a phrotocolau rheoli tir amgylcheddol-gyfrifol mewn strategaethau ystadau. |
| Cynyddu'r cyfle i amsugno allyriadau a gwella bioamrywiaeth gyda seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried defnyddio tir sector cyhoeddus i blannu mwy o goed er mwyn cynyddu atafaelu carbon a gwella bioamrywiaeth. |
| Cydweithio i ddatblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol. |
| Cwblhau a chynnal gweithrediad y Siarteri Teithio Iach i gefnogi newid moddol ymhlith staff gwasanaeth cyhoeddus. |
| Cydweithio i greu cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddatblygu cymdogaethau cerddadwy wrth ddatblygu ac adeiladu seilwaith sector cyhoeddus newydd mawr, megis ystadau iechyd neu awdurdod lleol, gan fwrw 'mlaen ag uchelgais Caerdydd i ddod yn 'ddinas 15 munud.' |
| Hyrwyddo bwyd iach, lleol, a charbon isel a chefnogi cais Bwyd Caerdydd i ddod y Lle Bwyd Cynaliadwy Aur cyntaf yng Nghymru. |
| Gwella ansawdd dŵr drwy ddatrysiadau dalgylch-gyfan sy'n seiliedig ar natur i reoli adnoddau dŵr.<br>Deall effaith yr hinsawdd newidiol ar ein gwasanaethau a'n hystadau fel y risg o lifogydd, gan weithredu atebion addasu i'r hinsawdd yn ôl y gofyn. |





ccha
HAYAAT WOMEN TRUST
Services you need.
ZUMBA

# Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus

# Cyflwyniad

Gwnaeth yr ymateb i'r pandemig amlygu pŵer cydweithio'r sector cyhoeddus a'r angen i harneisio asedau, technoleg a'r gweithlu i fodloni gofynion darparu gwasanaeth cyhoeddus modern. O ganlyniad, mae'n bwysig bod sefydliadau'n parhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu defnyddio'n bwrpasol, bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol, a bod y gweithlu'n cael ei ddatblygu a'i gefnogi i fodloni'r holl ofynion darparu gwasanaeth. Yn y pen draw, bydd hyn yn datblygu sector cyhoeddus mwy ystwyth, ataliol a gwyrdd, gan ddarparu gwasanaethau gwell a chynaliadwy i ddinasyddion.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran y bobl sy'n cytuno bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan |
| Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt |


# Caerdydd Heddiw

Mae gwasanaethau cyhoeddus y ddinas yn parhau i wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen.

Mewn ymateb i alw cynyddol a chyllidebau llai, mae gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd yn dilyn rhaglen o foderneiddio i wella effeithlonrwydd, eu galluogi i ddarparu gwasanaethau'n well, a hyrwyddo newid cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gwaith partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant yr agenda hon, gan gynnwys mwy o gydweithredu ac integreiddio gwasanaethau ar lefel cymunedol - fel cydleoli gwasanaethau mewn cyfleusterau cymunedol neu Hybiau - a chyflwyno timau amlasiantaethol i sicrhau bod y gwasanaeth iawn yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn, gan y sefydliad mwyaf priodol ac yn y ffordd iawn.

Gwnaeth yr her o ymateb i Covid-19 gyflymu'r agenda hon yn fawr, a gwneud arloesi, o fewn a rhwng sefydliadau, yn anghenraid. Yn wir, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ar ddyfnder a graddfa ddigynsail, gydag atebion radical – yn gofyn am ailgynllunio a diwygio sylfaenol – yn cael eu nodi, eu cytuno, a'u cyflwyno.

Gwnaeth yr her o ymateb i'r pandemig yn benodol gyflymu'r defnydd o dechnolegau digidol a dadansoddi data wrth ddarparu gwasanaethau, gydag ymateb y ddinas yn dibynnu ar gasglu, cyflwyno a dadansoddi data amser real yn gyflym ac yn gadarn ar draws y system gwasanaeth cyhoeddus i lywio penderfyniadau. Bydd angen i wasanaethau cyhoeddus ymgorffori'r newid hwn mewn ymarfer er mwyn cryfhau gwaith rheoli perfformiad a mewnwelediad yn sylweddol wrth symud ymlaen. At hynny, mae disgwyliadau dinasyddion a'u cynefindra â'r byd digidol wedi cynyddu, gyda rhai a ystyrid yn flaenorol yn analluog neu'n amharod i fanteisio ar wasanaethau ar-lein yn mabwysiadu gwasanaethau digidol am y tro cyntaf, o reidrwydd. Mae pobl nawr yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus digidol fod yn union fel y gwasanaethau eraill maent yn eu cyrchu, ac felly bydd angen i'r broses ddigideiddio hon gael ei datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd nesaf.



# Caerdydd Yfory

Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth symud ymlaen, gan gynnwys bodloni anghenion poblogaeth hŷn sy'n tyfu, galwadau cynyddol a phwysau cost ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, a darparu gwasanaethau sydd ag ôl troed carbon isel.

Er mwyn rheoli'r heriau hyn, bydd angen i wasanaethau cyhoeddus adeiladu ar newid ac arloesedd yr ychydig flynyddoedd diwethaf i barhau i foderneiddio'r ffordd y maent yn gweithredu ac i hyrwyddo atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull newydd sy'n dwyn ynghyd asedau, technoleg a'r gweithlu i ddatgloi arbedion effeithlonrwydd pellach, sicrhau enillion amgylcheddol a darparu cynnig gwasanaeth gwell. Bydd gwella defnydd effeithiol a dadansoddi data wrth reoli gwasanaethau a gwella gwasanaethau yn ganolog i'r dull newydd hwn. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu parhau i ddatblygu dull cydweithredol o reoli a datblygu ystâd a gwasanaethau sector cyhoeddus y ddinas.

Drwy'r dull gweithredu ar y cyd hwn, bydd gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd yn gallu ymateb yn well i anghenion a chryfderau ei chymunedau lleol amrywiol, gan ddarparu gwasanaethau hygyrch ac addasadwy i ddinasyddion sy'n cefnogi proses effeithiol o greu lleoedd. Gydag un o'r cymunedau ethnig amrywiol hynaf ym Mhrydain, mae Caerdydd yn enwog am ei hamrywiaeth a'i bywiogrwydd diwylliannol, gydag 21 % o'r boblogaeth yn perthyn i grŵp ethnig leiafrifol. Wrth symud ymlaen, bydd ffocws ar y cyd yn cael ei roi ar gyflawni argymhellion Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, gan sicrhau bod Caerdydd yn ddinas wrth-hiliol lle gall pawb ffynnu, waeth beth yw eu cefndir. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

Bydd ymgysylltu â dinasyddion yn hanfodol i lwyddiant y dulliau ar y cyd hyn. Drwy rymuso trigolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau lleol, gall gwasanaethau cyhoeddus wella'r broses o reoli adnoddau, gan sicrhau bod adnodd yn cael ei gyfeirio at y meysydd hynny sydd ei angen ac y bydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar gymunedau.

Yn gysylltiedig â hyn, bydd angen i sefydliadau partner fanteisio ar eu pŵer a'u rôl eu hunain fel sefydliadau angori o fewn cymunedau lleol, gan ddefnyddio eu galluoedd a'u dylanwad i gynhyrchu'r canlyniadau gorau i ddinasyddion ar draws y ddinas. Rhaid manteisio ar benderfyniadau gwario a buddsoddi gwasanaethau cyhoeddus yn llawn er mwyn creu cyfleoedd i drigolion tra'n hyrwyddo gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol.

> “Mae angen i wasanaethau cyhoeddus adeiladu ar newid ac arloesedd y blynyddoedd diwethaf…
> i ddatgloi effeithlonrwydd pellach, manteision amgylcheddol a chynnig gwasanaeth gwell”

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Partneriaeth yng Nghaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Cynyddu'r defnydd o ddata, gan gynnwys data a rennir, ar draws gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a diwygio gwasanaethau, gan adeiladu ar y dull llwyddiannus a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. |
| Mabwysiadu dull integredig o reoli tir, adeiladau a gwasanaethau'r sector cyhoeddus mewn ardaloedd lleol, gan ymateb i anghenion a chryfderau pob cymuned, gan gynnwys cymunedau presennol a rhai a gynllunnir. |
| Cynyddu lefelau ymgysylltu â dinasyddion wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig gyda grwpiau a phobl ifanc sydd wedi dadrithio'n ddinesig, gan archwilio dull ar y cyd o ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. |
| Arwain gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymateb i amrywiaeth y ddinas ac yn ei hadlewyrchu, gan gynnwys ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a'u gweithredu'n llawn. |



# Mesur Cynnydd - Dangosyddion Canlyniadau

Bydd gosod mesuriadau yn erbyn pob Amcan Lles yn cynorthwyo BGC Caerdydd wrth werthuso'r lefel llwyddiant o ran gwella lles y ddinas, a nodi meysydd sydd angen ffocws ychwanegol neu flaenoriaethau diwygiedig.   Adroddir ar y rhain yn flynyddol.

Mae'r mesuriadau a nodir isod yn gyfuniad o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a ddewiswyd i ddangos yn glir y cynnydd yn erbyn pob amcan. Cydnabyddir, tra'n adrodd yn flynyddol, ac o ystyried yr angen i arddangos effaith fyrdymor, y bydd angen ystyriaeth hirdymor ar nifer o'r mesuriadau cynnydd a ddewisir er mwyn cyflawni'r targed dymunol.

Mae dangosyddion ychwanegol wedi'u cynnwys i fesur lles a adroddir gan bobl Caerdydd, gan weithredu dull holistaidd tuag at les yn hytrach na chael eu halinio ag Amcan penodol yn y Cynllun.

| Dangosyddion Lles |
| --- |
| Lles Personol – Bodlonrwydd ar fywyd |
| Lles Personol – Teimlo'n Werth Chweil |
| Lles Personol – Hapusrwydd |
| Lles Personol – Pryder |
| Canran y bobl sy'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn gyda'u swyddi |

| Amcan 1: Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu |
| --- |
| Canran y plant mewn teuluoedd incwm isel |
| Lles meddwl: plant ac oedolion ifanc, ac oedolion (Dangosydd Cenedlaethol 29) |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 sydd â phwysau iach |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu |
| Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol |
| Nifer y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) |
| Canran y myfyrwyr sy'n ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd |
| Pobl sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Gyrfa Cymru) |
| Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf |

| Amcan 2: Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn |
|---|
| Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda |
| Canran y bobl 65+ oed sydd â phwysau iach |
| Canran y bobl 65+ sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen |
| Canran yr oedolion 65+ oed sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig |
| Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd |

| Amcan 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi |
|---|
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. o dan 60 % o'r incwm canolrifol) fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) (wedi costau tai) |
| Nifer y cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig |
| Nifer y gweithwyr sy'n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf |
| Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywaidd a benywaidd) gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (Dangosydd Cenedlaethol 2) |
| Canran y babanod â phwysau geni isel (Dangosydd Cenedlaethol 1) |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol (SYG) |
| Cysgwyr ar y stryd fesul 10,000 person |
| Tlodi bwyd: Amcangyfrifir bod canran yr unigolion yn y chwe mis blaenorol sy'n a) cael prydau llai na'r arfer neu hepgor prydau bwyd b) colli prydau bwyd i fforddio talu biliau c) llwglyd ond heb fwyta d) derbyn bwyd gan fanc bwyd neu elusen e) heb fwyta am ddiwrnod cyfan f) dim o'r rhain |
| Canran yr Aelwydydd mewn Tlodi Tanwydd |

| Amcan 4: Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus |
| --- |
| Pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27) |
| Canran sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol) |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartrefi, wrth gerdded yn eu hardal leol, ac wrth deithio) (Arolwg Cenedlaethol) |
| Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) ar y cyfan dros y flwyddyn ddiwethaf |
| Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd |
| Cyfraddau gwirfoddoli |

| Amcan 5: Prifddinas sy'n Gweithio dros Gymru |
| --- |
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16+ oed sy'n economaidd weithgar |
| GYC y pen |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen |
| Cyflogeion â thâl bob awr sy'n is na'r cyflog byw |
| Canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed sydd â chymwysterau NVQ4+ (lefel gradd neu gyfwerth) |
| Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth y mae trigolion Caerdydd yn dechrau arnynt yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus |
| Presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol, llefydd hanesyddol ac amgueddfeydd |
| Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg |

| Amcan 6: Caerdydd Un Blaned |
| --- |
| Allyriadau $CO_2$ fesul pen o'r boblogaeth (BEIS) |
| Rhaniad moddol trafnidiaeth gynaliadwy |
| Lefelau Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a lefelau llygredd deunydd gronynnol (PM10, PM2.5) yn yr aer |
| Defnydd o/agosrwydd at fan naturiol hygyrch:<br>• Ansawdd: Nifer y safleoedd sy'n bodloni meini prawf Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.<br>• Hygyrchedd: Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded i fan gwyrdd o ansawdd uchel. |
| Canran y nodweddion dynodedig mewn safleoedd cadwraeth gwarchodedig sydd mewn cyflwr 'ffafriol'. Safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) |
| Canran trigolion Caerdydd sy'n teimlo'n hyderus fod y bwyd maen nhw'n ei brynu yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd ecogyfeillgar |
| Canran trigolion Caerdydd sy'n teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd |
| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff dinesig |

| Amcan 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus |
| --- |
| Canran y bobl sy'n cytuno bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan |
| Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt |

# Rhestr Termau

**Ôl-troed carbon** - Faint o garbon deuocsid a gaiff ei ryddhau i mewn i'r atmosffer o ganlyniad i weithgareddau unigolyn, sefydliad neu gymuned benodol.

**Prifddinas-Ranbarth** - Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardal o Dde-ddwyrain Cymru, yn cynnwys y deg awdurdod lleol (Pen-y-bont, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd a Chaerdydd).

**Twf Economaidd** - Cynnydd o ran faint o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir fesul pen o'r boblogaeth dros gyfnod o amser.

**Tlodi bwyd** - Yr anallu i fforddio, neu gael mynediad i, fwyd i wneud deiet iach. Mae'n ymwneud ag ansawdd bwyd yn ogystal â'r swm.

**Tlodi Tanwydd** - Yr anallu i fforddio cynhesu cartref rhywun yn ddigonol. Yng Nghymru mae tlodi tanwydd yn cael ei ddiffinio fel aelwyd sy'n gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar danwydd, ac ystyrir bod yr aelwyd mewn tlodi tanwydd difrifol os yw'n gwario mwy nag 20%.

**Disgwyliad Oes Iach** - Amcan o faint o flynyddoedd y gallai person fyw mewn cyflwr 'iach'.

**Dangosyddion** - Mae dangosyddion perfformiad yn ffyrdd o fesur cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi cytuno ar y dangosyddion a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Anghydraddoldeb** -Bylchau mewn statws (megis statws iechyd) rhwng gwahanol grwpiau; er enghraifft, y rhai sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd, neu o wahanol ethnigrwydd neu statws economaidd-gymdeithasol. Gall gwahaniaethau o'r fath gael eu hachosi gan amrywiaeth o ffactorau, ac nid yw'n bosibl newid pob un ohonynt e.e. nodweddion etifeddol neu leoliad daearyddol.

**Annhegwch** - Gwahaniaeth (er enghraifft, mewn iechyd) sy'n ddiangen, y gellir ei osgoi, sy'n annheg, neu sy'n anghyfiawn; mae gwahaniaethau o'r fath yn agored i weithredu.

**Disgwyliad Oes** -Yn fras, nifer y blynyddoedd y gellid disgwyl i berson fyw.

**Dangosydd Canlyniad** - Mesur o berfformiad y ddinas gyfan.

**Twf Poblogaeth** - Y cynnydd yn nifer yr unigolion mewn poblogaeth.

**Tlodi** - Byw o dan y trothwy tlodi, a ddiffinnir fel o dan 60% o'r incwm aelwyd cyfartalog (cyn costau tai).

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Cyrff sector cyhoeddus yn gweithredu ar y cyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r aelodau statudol yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Cyflog Byw Gwirioneddol** - Y Cyflog Byw Gwirioneddol yw'r unig gyfradd cyflog yn y DU sy'n cael ei thalu'n wirfoddol gan dros 10,000 o fusnesau yn y DU sy'n credu bod eu staff yn haeddu cyflog sy'n diwallu anghenion bob dydd - fel siopa bwyd wythnosol, neu daith annisgwyl i'r deintydd. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i osod ar £9.90 yr awr (£11.05 yn Llundain).

**Allgáu Cymdeithasol** - Cyflwr o ddiffyg cyswllt llwyr (neu bron yn llwyr) rhwng unigolyn a chymdeithas. Mae'n wahanol i unigrwydd, sy'n adlewyrchu diffyg cyswllt dros dro â phobl eraill.

**Arc Ddeheuol** - Mae 'Arc Ddeheuol' Caerdydd yn cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol: Adamsdown, Butetown, Caerau, Treganna, Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Glan-yr-afon, Tredelerch, Sblot, a Trowbridge.

**Dinasoedd Craidd y DU** - Mae'r Dinasoedd Craidd yn grŵp o 11 dinas fawr sy'n cynnwys wyth economi ddinesig fwyaf Lloegr (ac eithrio Llundain), yn ogystal â Chaerdydd a Glasgow. Mae cymariaethau'n cael eu gwneud â'r dinasoedd hyn drwy gydol y ddogfen hon.

**Lles** - Yn syml, mae lles yn ymwneud â 'sut mae pethau'n mynd' fel unigolion, cymunedau ac fel cenedl a pha mor gynaliadwy yw hyn ar gyfer y dyfodol. Gellir disgrifio lles fel rhywbeth sydd â 10 dimensiwn cyffredinol, "yr amgylchedd naturiol, lles personol, ein perthnasau ag eraill, iechyd, beth rydyn ni'n ei wneud, ble rydyn ni'n byw, cyllid personol, yr economi, addysg a sgiliau, a llywodraethu" (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013).